

ScottishPower Gas and Electricity

Telerau Cyffredinol a Barnus
ac Amodau ar gyfer
Cwsmeriaid Domestig



SCOTTISHPOWER

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu **ein** telerau ac amodau cyffredinol **ni** ar gyfer cyflenwi nwy neu drydan (neu'r ddau) i'n cwsmeriaid domestig **ni**. Bydd y telerau ac amodau hyn yn berthnasol yn awtomatig os ydych **chi** wedi cytuno i lunio **contract** gyda **ni** ar gyfer cyflenwi **ynni** i'ch **eiddo chi**. Mae'r telerau ac amodau hyn hefyd yn berthnasol yn awtomatig os byddwn **ni'n** cyflenwi **ynni** i'ch **eiddo chi**, ond nid ydych **chi** wedi cytuno i lunio **contract** gyda **ni** ar gyfer y cyflenwad hwnnw. Yn yr amgylchiadau hynny, byddwn **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **contract tybiedig** rhyngoch **chi** a **ni**.

Bydd rhai telerau ac amodau ychwanegol yn berthnasol i'ch **contract** gyda **ni** hefyd, gan gynnwys y canlynol.

- Unrhyw delerau ac amodau ychwanegol sy'n berthnasol i'r **tariff** a ddewiswyd gennych **chi**. Byddwn **ni'n** dweud wrthy ch **chi** am y rhain cyn i **chi** gytuno i lunio **contract** gyda **ni** neu pan fyddwch **chi'n** dewis **tariff** newydd, a byddwn **ni'n** eu cadarnhau yn y **llythyr cadarnhau tariff**.
- Unrhyw delerau ac amodau ychwanegol sy'n berthnasol os ydych **chi'n** defnyddio **ein** gwefan neu ap ffôn symudol **ni** i reoli **eich** cyfrif gyda **ni**. Byddwn **ni'n** dweud wrthy ch **chi** am y rhain pan fyddwch **chi'n** cofrestru ar gyfer y **tariff** perthnasol, neu pan fyddwch **chi'n** mewngofnodi i'ch cyfrif neu ap.

Mae'n bosibl y byddwn **ni'n** diweddarar telerau ac amodau a amlinellir yn y llyfryn hwn o bryd i'w gilydd, a byddwn **ni'n** cyhoeddi'r fersiynau cyfredol ar **ein** gwefan **ni** yn scottishpower.co.uk. Gallwch **chi** hefyd ofyn i **ni** am gopi o fersiwn gyfredol y llyfryn hwn unrhyw bryd.

Gallwch **chi** gael fersiynau Saesneg a phrint bras o'r llyfryn hwn yn scottishpower.co.uk neu drwy **gysylltu â ni**.

1. Rhestr termau

Mae ystyr benodol i rai termau a ddefnyddir yn y llyfryn hwn. Rydym **ni** wedi rhestru'r termau hynny yn yr adran 1 hon, ac fe'u hamlygir mewn teip trwm pan y'u defnyddir yn y llyfryn hwn.

Taliadau

Y taliadau y byddwch **chi'n** eu talu o dan y **contract**, gan gynnwys y rhai hynny sy'n berthnasol i'ch **tariff chi**, unrhyw **daliadau Bargen Werdd** ac unrhyw gostau, taliadau neu symiau eraill y byddwch **chi'n** eu talu o dan delerau'r **contract**.

Cysylltu â ni

Gallwch **ein** ffonio **ni** ar 0800 027 0072 yn ystod oriau busnes arferol, ysgrifennu atom **ni** yn ScottishPower Energy Retail, Customer Care, 320 St Vincent Street, Glasgow G2 5AD, neu gysylltu â **ni** mewn unrhyw ffordd arall y gallem **ni** ei chynnig i **chi** o bryd i'w gilydd.

Contract

Y **contract** y cytunwyd arno (neu'r **contract tybiedig** a wnaed) rhyngoch **chi a ni** i gyflenwi **ygni i'r eiddo**, sydd wedi'i ffurfio o'r dogfennau canlynol.

- Y telerau ac amodau hyn.
- Y **llythyr cadarnhau tariff**.
- Unrhyw delerau ac amodau sy'n berthnasol i'ch **tariff chi**.
- Unrhyw ddogfennau eraill y cyfeiriwn **ni** atynt yn y llyfryn hwn neu yn y **llythyr croeso a chadarnhau tariff**, gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw delerau ac amodau sy'n berthnasol os byddwch **chi'n** defnyddio **ein** gwefan neu ap **ni**.

Efallai y byddwn **ni'n** diwygio telerau'r **contract** o bryd i'w gilydd yn unol â'r telerau ac amodau yn y llyfryn hwn.

Contract tybiedig

Contract ar gyfer:

- cyflenwi trydan yr ystyrir ei fod wedi cael ei wneud rhyngom **ni a chi** o dan Atodlen 6 Deddf Trydan 1989; neu
- gyflenwi nwy yr ystyrir ei fod wedi cael ei wneud rhyngom **ni a chi** o dan Atodlen 2B Deddf Nwy 1986;

pan fyddwn **ni'n** cyflenwi trydan neu nwy i **chi** ond nid ydych wedi cytuno i lunio **contract** gyda **ni** ar gyfer y cyflenwad hwnnw.

Gweithredwr rhwydwaith trydan

Y gweithredwr sydd wedi cael ei drwyddedu gan **Ofgem** i weithredu'r rhwydwaith dosbarthu trydan yn yr ardal y mae'r **eiddo** wedi'i leoli ynddi.

Ygni

Trydan neu nwy naturiol prif gyflenwad (neu'r ddau) yr ydym **ni'n** ei gyflenwi i **chi** o dan y **contract** at ddefnydd domestig (neu ddomestig yn bennaf).

Contract telerau cyfatebol

Contract â telerau ac amodau sy'n debyg o ran natur i'r **contract** a oedd ar waith cyn newid i gyflenwr newydd, ac sydd yr un peth â'r **tariff** yr oeddech **chi** arno cyn newid i gyflenwr newydd neu'n rhatach nag ef.

Cyrff y diwydiant

Ofgem, y **gweithredwr rhwydwaith trydan**, y **cludwr nwy** a'r holl bobl neu gwmnïau eraill sy'n rheoleiddio, rheoli neu weithredu unrhyw agwedd ar y diwydiant cyflenwi trydan a nwy.

Rheoliadau'r diwydiant

Y drwydded (neu'r trwyddedau) a roddir gan **Ofgem** sy'n caniatáu i **ni** gyflenwi trydan a nwy i **chi**, ynghyd â'r holl ddeddfau a rheoliadau eraill a dogfennau, canllawiau neu gyfarwyddiadau'r

diwydiant sy'n ymwneud â chyflenwi trydan neu nwy naturiol prif gyflenwad (neu'r ddau).

Cludwr nwy

Cwmni sydd wedi'i drwyddedu a'i awdurdodi gan **Ofgem** i gyflenwi nwy naturiol prif gyflenwad i'r **eiddo** trwy bibell.

Taliadau'r Fargen Werdd

Unrhyw daliadau am fesurau effeithlonrwydd **ygni** sydd wedi cael eu gosod yn yr **eiddo** ac y mae'n rhaid i **ni** eu casglu trwy eich biliau **ygni chi** yn unol â'r cynllun Bargen Werdd.

Uned arddangos yn y cartref

Uned arddangos annibynnol ar gyfer y cartref sydd wedi'i chysylltu'n ddi-wifr â'r **mesurydd deallus** ac sy'n darparu gwybodaeth am eich defnydd **chi** o **ygni** a'i gost.

Offer mesur

Y mesurydd a'r holl offer a systemau eraill a ddefnyddir i fesur faint o **ygni** sy'n cael ei ddefnyddio yn yr **eiddo**, ynghyd ag unrhyw eitemau eraill yr ydym **ni'n** eu darparu neu'n sicrhau eu bod ar gael mewn cysylltiad â chyflenwi nwy neu drydan i **chi**. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, **unedau arddangos yn y cartref** ac unrhyw allwedd, tocyn, cerdyn neu eitem arall a ddefnyddir i ychwanegu credyd at **fesurydd rhagdal**.

Ofgem

Y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (neu unrhyw un sy'n eu disodli), sy'n rheoleiddio'r marchnadoedd cyflenwi nwy a thrydan ym Mhrydain Fawr, ynghyd â'u hasiantau a'u cynrychiolwyr.

Mesurydd rhagdal

Mesurydd a ddefnyddir i dalu am **ygni** a **thaliadau** eraill o flaen llaw. Gallai hyn fod yn fesurydd rhagdal neu'n **fesurydd deallus** sydd wedi'i osod i'r modd rhagdal.

Eiddo

Y cartref, yr adeilad neu fan arall yr ydym **ni'n** cyflenwi **ygni** iddo o dan y **contract**.

Dyddiad perthnasol

Fel y nodir yn ein Hamodau Trwydded Cyflenwi, dyma'r diwrnod yr ydych **chi** wedi rhoi digon o wybodaeth i **ni** neu **ein** cynrychiolwyr i allu cynnal proses newid, ac y byddech yn disgwyl yn rhesymol i'r newid ddigwydd heb gamau ychwanegol gennych **chi**, ar ôl llunio **contract** gyda **ni** yn gyntaf. Os ydych wedi llunio **contract** gyda ni ar ôl 5pm ar ddiwrnod gwaith, y **dyddiad perthnasol** cynharaf fydd y diwrnod gwaith nesaf.

Ernes

Swm o arian rydych **chi'n** ei roi i **ni** fel gwarant ar gyfer talu'r **taliadau**. Os na fyddwch **chi'n** talu unrhyw **daliadau** yn unol â thelerau'r **contract**, gallwn **ni** ddefnyddio'r **ernes** i dalu am y **taliadau** hynny.

Mesurydd deallus

Mesurydd trydan neu nwy a osodir yn yr **eiddo** y gallwn **ni** gyfathrebu ag ef a'i ddarllen o bell, heb angen ymweld â'r **eiddo**.

Uned arddangos ddeallus

Yr **uned arddangos yn y cartref** neu, os yw'n berthnasol, uned arddangos arall gydweddol (er enghraifft, ap ar eich ffôn symudol neu lechen), sydd wedi'i chysylltu'n ddi-wifr â'r **mesurydd deallus** ac sy'n darparu gwybodaeth am eich defnydd **chi** o **ygni** a'i gost.

Tariff

Y **tariff** yr ydym **ni'n** ei ddefnyddio i gyfrifo'r **taliadau** ar gyfer cyflenwi **ygni** i'r **eiddo**.

Llythyr cadarnhau tariff

Y llythyr, neges e-bost neu fath arall o gyfathrebu a anfonir gennym **ni** sy'n amlinellu manylion eich **contract chi** gyda **ni**, gan gynnwys eich **tariff chi**. Fe'i hanfonir yn fuan ar ôl i **chi** lunio **contract** gyda **ni** (neu'n fuan ar ôl i **contract tybiedig** gael ei lunio rhyngoch **chi** a **ni**), ac os bydd eich **tariff**

chi'n newid ar unrhyw adeg.

Ni, ein, ScottishPower

ScottishPower Energy Retail Limited, cwmni corfforedig yn yr Alban â'r rhif cofrestredig SC190287.

Chi, eich, cwsmer

Yr unigolyn (neu'r unigolion) yr ydym **ni** wedi llunio neu wneud y **contract** gydag ef neu nhw.

- Os cytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni**, dyma'r unigolyn (neu unigolion) a enwir yn y **llythyr cadarnhau tariff**.
- Os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** o dan **gontract tybiedig**, dyma'r unigolyn (neu unigolion) yr ystyrir **ein** bod **ni** wedi gwneud y **contract** gyda nhw, yn unol â **rheoliadau** perthnasol y **diwydiant**.

2. Pryd y bydd eich contract yn dechrau

2.1 Bydd y **contract** yn dechrau ar y dyddiad y cytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni**:

- trwy lenwi ffurflen gais ar-lein a'i hanfon atom **ni** neu un o'n cynrychiolwyr **ni** (er enghraifft, ar **ein** gwefan **ni** neu drwy ddefnyddio **ein** ap ffôn symudol **ni**);
- ar y ffôn gydag un o'n cynrychiolwyr **ni**; neu
- yn bersonol gydag un o'n cynrychiolwyr **ni**.

2.2 Os nad ydych **chi** wedi cytuno i lunio **contract** gyda **ni**, ond rydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **gontract tybiedig**, bydd y **contract** yn dechrau ar y dyddiad y dechreuom **ni** gyflenwi **ynni** i'r **eiddo** o dan y **contract**. Er enghraifft, gallai hyn fod:

- y dyddiad y daethoch **chi'n** berchennog yr **eiddo** (os **chi** yw perchennog yr **eiddo**);
- y dyddiad y dechreuodd eich prydles **chi** (os **chi** yw tenant yr **eiddo**); neu
- y dyddiad y symudodd tenant allan o'r **eiddo** (os **chi** yw landlord yr **eiddo**).

2.3 Bydd cyfnod ailfeddwl yn berthnasol fel mater o drefn pan fyddwch **chi** yn llunio **contract** gyda **ni**, p'un a ydych **chi** yn gwsmer newydd neu bresennol. Daw'r cyfnod ailfeddwl i ben 14 diwrnod o'r dyddiad ar ôl i **chi** lunio'r **contract**. Os ydych **chi** yn gwsmer newydd, mae hyn yn golygu y daw'r cyfnod ailfeddwl i ben 14 diwrnod o'r dyddiad ar ôl i **chi** lofnodi i ymuno â **ni**. Neu, os ydych **chi** yn gwsmer presennol sydd wedi newid tariff, daw'r cyfnod ailfeddwl i ben 14 diwrnod o'r dyddiad ar ôl i **chi** gadarnhau eich tariff newydd **chi**. Fel yr esboniwyd gennym pan lunioch **chi** eich contract gyda **ni**, gallwch **chi** roi gwybod i **ni** eich bod **chi** eisiau canslo **contract** unrhyw bryd yn ystod y cyfnod ailfeddwl trwy ein ffonio ni neu gysylltu â ni ar-lein.

2.4 Os caiff y **contract** ei ganslo yn ystod y cyfnod ailfeddwl ond ar ôl i **ni** eisoes ddechrau cyflenwi **ynni** i **chi**, byddwn **ni** yn rhoi gwybodaeth benodol i chi yn unol â **rheoliadau'r diwydiant**. Bydd gennym **ni** yr hawl i godi tâl arnoch **chi** am yr **ynni** hwn o dan delerau'r **contract** hwnnw tan y cynharaf o'r canlynol:

- rydych **chi** yn llunio **contract** newydd gyda **ni** ac rydym **ni** yn dechrau cyflenwi **ynni** i chi o dan delerau'r **contract** newydd hwnnw;
- rydych **chi** yn llunio contract gyda chyflenwr arall ac mae'r cyflenwr arall hwnnw'n dechrau cyflenwi **ynni** i chi; neu
- 15 niwrnod gwaith o'r dyddiad pan fyddwn **ni** yn anfon y wybodaeth benodol a grybwyllir uchod atoch **chi** yn unol â **rheoliadau'r diwydiant**, ac o'r adeg honno ymlaen byddwn **ni** yn cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **gontract tybiedig**.

2.5 Trwy lunio **contract** gyda **ni**, rydych **chi'n** cadarnhau mai **chi** yw perchennog neu feddiannwr yr **eiddo** a bod yr **eiddo** wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith prif gyflenwad nwy neu drydan (neu'r

ddau).

3. Pryd y byddwn yn dechrau cyflenwi ynni i chi

- 3.1 Os nad ydym **ni** eisoes yn cyflenwi **ynni** i'r **eiddo** ar y dyddiad y cytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni**, byddwn **ni** yn ceisio dechrau cyflenwi **ynni** i **chi** cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a, sut bynnag, o fewn 5 niwrnod gwaith o'r **dyddiad perthnasol**. Byddwn **ni** yn dweud wrthyh **chi** ar ba ddyddiad y bydd eich cyflenwad **ynni chi** yn dechrau o dan y **contract**.
- 3.2 Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fyddwn **ni** yn gallu dechrau cyflenwi **ynni** o fewn y cyfnod 5 niwrnod gwaith hwnnw, er enghraifft:
- os byddwch **chi** yn gofyn i **ni** ddechrau cyflenwi'r **ynni** ar ddyddiad diweddarach;
 - os bydd eich cyflenwr presennol **chi** yn gwrthwynebu ein bod **ni** yn dechrau cyflenwi'r **ynni**;
 - os byddwch **chi** yn canslo'r **contract** yn ystod eich cyfnod ailfeddwl **chi**;
 - os, ar ôl i **ni** ofyn i **chi**, nid ydych yn gofyn yn benodol i **ni** ddechrau cyflenwi **ynni** cyn i'ch cyfnod ailfeddwl **chi** orffen; neu
 - os na allwn **ni** ddechrau cyflenwi **ynni** o ganlyniad i rywbeth rydych **chi** wedi'i wneud neu fetu ei wneud, neu o ganlyniad i unrhyw amgylchiadau sydd y tu allan i'n rheolaeth **ni**.
- 3.3 Os ydym **ni** eisoes yn cyflenwi **ynni** i'r **eiddo** ar y dyddiad rydych **chi'n** llunio'r **contract** gyda **ni**, bydd y **contract** yn berthnasol i gyflenwi **ynni** i'r **eiddo** o'r dyddiad hwnnw ymlaen.
- 3.4 Mae'n bosibl y gofynnwn **ni** i **chi** ddarparu darlenniad mesurydd ar gyfer nwy neu drydan (neu'r ddau) cyn i **ni** ddechrau cyflenwi'r **ynni** i **chi**. Efallai y byddwn **ni'n** amcangyfrif y darlenniad hwn (neu'r darlenniadau hyn):
- os na fyddwch **chi'n** rhoi darlenniad mesurydd i **ni** ac nid ydym **ni** wedi cael darlenniad mesurydd gan unrhyw un arall (er enghraifft, perchennog neu feddiannwr blaenorol yr **eiddo** neu'r cyflenwr blaenorol); neu
 - os ydym **ni'n** credu'n rhesymol bod darlenniad mesurydd rydych **chi** wedi'i ddarparu, neu rydym **ni** wedi'i dderbyn gan rywun arall, yn anghywir.

4. Beth fydd yn digwydd os na allwn gyflenwi ynni i chi

- 4.1 Os cytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni** ond na allwn **ni** ddechrau neu barhau i gyflenwi **ynni** i **chi** (gan gynnwys, er enghraifft, os na ellir ymdrin ag unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 3.2 o fewn cyfnod rhesymol ar ôl i **chi** gytuno i lunio'r **contract** gyda **ni**), gallwn **ni**:
- derfynu'r **contract** trwy roi rhybudd i **chi**; a
 - chanslo unrhyw broses sydd wedi dechrau, o bosibl, i'n cofrestru **ni** fel cyflenwr yr **ynni** perthnasol i'r **eiddo**.
- 4.2 Os ydym **ni** wedi cytuno i ddarparu nwy a thrydan i **chi**, ond rydym **ni'n** arfer **ein** hawliau **ni** o dan adran 4.1 ar gyfer nwy neu drydan yn unig (nid y ddau), gallwch **chi** ddweud wrthyh **ni** eich bod **chi** eisiau terfynu'r **contract** cyfan (ni fydd rhaid i **chi** dalu ffi ymadael i derfynu'r **contract** yn yr amgylchiadau hyn).
- 4.3 Os byddwch **chi'n** arfer eich hawliau **chi** o dan adran 4.1 neu adran 4.2, neu os byddwn **ni'n** gwneud hynny, ond rydym **ni** eisoes wedi dechrau cyflenwi'r **ynni** i **chi**, gallwn **ni** godi tâl arnoch **chi** am yr **ynni** a gyflenwn **ni** i **chi** hyd nes y byddwch **chi'n** symud i gyflenwr arall.

5. Hyd eich contract gyda ni

- 5.1 Bydd y **contract** yn parhau oni bai y byddwch **chi** neu y byddwn **ni'n** ei derfynu yn unol â thelerau'r **contract**.
- 5.2 Os ydych **chi** wedi dewis **tariff** cyfnod penodol, byddwn **ni'n** anfon hysbysiad ysgrifenedig atoch **chi** cyn i'ch **tariff** cyfnod penodol **chi ddod i ben**, yn unol â'r telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r **tariff** hwnnw. Bydd yr hysbysiad hwn yn esbonio pa 'dariff diofyn' (y **tariff** y byddwch **chi'n** symud iddo'n awtomatig) a fydd yn berthnasol os na fyddwch **chi'n** cytuno'n ysgrifenedig i ymestyn y **contract** trwy ddeuis **tariff** newydd a gynigiwn **ni i chi**, os na fyddwch **chi'n** llunio **contract** newydd gyda **ni**, neu os na fyddwch **chi'n** symud i gyflenwr newydd.
- 5.3 Os bydd un o'r canlynol yn digwydd o fewn 20 niwrnod gwaith ar ôl i'ch **tariff** cyfnod penodol **chi** ddod i ben:
- rydych **chi'n** cytuno i symud i dariff neu gontract newydd gyda **ni**; neu
 - rydych **chi** neu gyflenwr **ynni** arall yn dweud wrthym **ni** eich bod **chi'n** symud i gyflenwr **ynni** arall, ac mae'ch cyflenwad **chi'n** symud o fewn cyfnod rhesymol (20 niwrnod gwaith fel arfer);
- byddwch **chi'n** aros ar eich **tariff** cyfnod penodol **chi** hyd nes y bydd y broses o'ch symud **chi** i gyflenwr newydd neu i dariff neu gontract newydd gyda **ni'n** dod i rym, oni bai **ein** bod **ni'n** credu y byddai'n rhatach i **chi** symud i'r '**tariff** diofyn' perthnasol am y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, gallwn **ni** wrthwynebu eich bwriad **chi** i symud i gyflenwr **ynni** newydd os oes gennych **chi** unrhyw **daliadau** sy'n ddyledus i **ni**. (Gweler adran 23 i gael gwybod beth fyddwn **ni'n** ei wneud yn yr amgylchiadau hyn.)
- 5.4 Os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **gontract tybiedig**, bydd y **contract** hwnnw'n parhau hyd nes:
- y byddwn **ni'n** dechrau cyflenwi **ynni** i'r **eiddo** o dan **gontract** rydych **chi'n** cytuno i'w llunio gyda **ni** (nad yw'n **gontract tybiedig**);
 - y bydd cyflenwr **ynni** arall yn cael ei benodi'n gyflenwr cofrestredig **ynni** i'r **eiddo** ac yn dechrau cyflenwi **ynni** i'r **eiddo**;
 - y byddwch **chi'n** symud allan o'r **eiddo** ac rydych **chi'n** terfynu'r **contract** yn unol ag adran 21; neu
 - y bydd y cyflenwad **ynni** i'r **eiddo'n** cael ei ddatgysylltu neu ei derfynu am unrhyw reswm.

6. Sut byddwn ni'n cyfrifo eich taliadau chi

- 6.1 Byddwn **ni'n** cyfrifo'r **taliadau** y byddwch **chi'n** eu talu am gyflenwi **ynni** yn seiliedig ar eich **tariff chi** bryd hynny.
- Os cytunoch **chi** i llunio'r **contract** gyda **ni**, byddwch chi a **ni'n** cytuno ar y **tariff** a fydd yn berthnasol ar ddechrau'r **contract** ar yr adeg pan fyddwch **chi'n** llunio'r **contract** gyda **ni**, a bydd y **tariff** hwn yn cael ei nodi yn y **llythyr cadarnhau tariff** a anfonir gennym **ni'n** fuan ar ôl i **chi** llunio'r **contract**. Fodd bynnag, gallai'r **tariff** sy'n berthnasol newid o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau'r **contract** neu fel y cytunir gennych **chi** a gennym **ni**.
 - Os byddwn **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **gontract tybiedig**, bydd **ein tariff** ar gyfer cwsmeriaid domestig o dan **gontractau tybiedig** yn berthnasol. Bydd y **tariff** hwn yn cael ei nodi yn y **llythyr cadarnhau tariff** y byddwn **ni'n** ei anfon atoch **chi** yn fuan ar ôl i'r **contract tybiedig** gael ei wneud, a gallai newid o bryd i'w gilydd. Byddwn **ni** hefyd yn cyhoeddi manylion y **tariff** presennol sy'n berthnasol i gwsmeriaid domestig o dan **gontractau tybiedig** ar **ein** gwefan **ni** yn scottishpower.co.uk, a gallwch **chi** ofyn i **ni** am fanylion

cyfredol y **tariff** hwnnw ar unrhyw bryd trwy **gysylltu â ni**.

6.2 Mae rhagor o wybodaeth am y **taliadau** o dan eich **tariff chi** ar gael yn yr adran label gwybodaeth am dariff ar **ein** gwefan **ni** yn scottishpower.co.uk. Gallwch **chi** hefyd ofyn am wybodaeth am eich **tariff chi** ar unrhyw bryd trwy **gysylltu â ni**.

6.3 Oni bai bod y **llythyr cadarnhau tariff** neu'r label gwybodaeth am dariff yn dweud yn wahanol, byddwn **ni'n** cyfrifor'r **taliadau** ar gyfer cyflenwi **ygni** i **chi** yn seiliedig ar:

- unrhyw 'dâl sefydlog' sy'n berthnasol – tâl dyddiol yw tâl sefydlog sy'n mynd tuag at gost cynnal y cyflenwad **ygni** i **chi** ac nid yw'n gysylltiedig â faint o **ygni** rydych **chi'n** ei ddefnyddio; ac
- un neu fwy o 'gyfraddau uned' – tâl (mewn ceiniogau fesul cilowat awr) yw cyfradd uned sy'n ddyledus am faint o **ygni** rydych **chi'n** ei ddefnyddio. Gallai un neu fwy o gyfraddau uned fod yn berthnasol i'ch **tariff chi** – er enghraifft, gallai cyfraddau uned gwahanol fod yn berthnasol i'r **ygni** rydych **chi'n** ei ddefnyddio ar adegau gwahanol o'r dydd.

Os ydym **ni'n** cyflenwi nwy i **chi**, byddwn **ni'n** trosi faint o nwy rydych **chi'n** ei ddefnyddio o droedfeddi ciwbig neu fetrau ciwbig i gilowat-oriau, yn unol â **rheoliadau'r diwydiant**. Gallwch **chi** ofyn am fwy o wybodaeth am sut rydym **ni'n** gwneud hyn trwy **gysylltu â ni**.

6.4 Efallai y byddwn **ni** hefyd yn codi symiau ychwanegol arnoch **chi** nad ydynt wedi'u cynnwys yn y **tariff**. Os yw'n bosibl, byddwn **ni'n** ceisio dweud wrthyhych **chi** am y symiau hyn cyn i **ni** eu codi arnoch **chi**. Gallent gynnwys taliadau, costau a symiau eraill y gallem **ni** neu **ein** hasiantau **ni** eu codi mewn cysylltiad ag:

- ymweld â'r **eiddo** a datgysylltu, atal, newid neu ailgysylltu eich cyflenwad **chi**, os ydych **chi** wedi gofyn i **ni** wneud hynny neu os ydym **ni** wedi gwneud hynny o ganlyniad i unrhyw beth rydych **chi** wedi'i wneud neu heb ei wneud;
- ymweld â'r **eiddo** ac archwilio unrhyw **offer mesur**, os ydych **chi** wedi gofyn i **ni** wneud hyn ond nid ydym **ni'n** dod o hyd i ddiffyg;
- ymweld â'r **eiddo** ac archwilio unrhyw **offer mesur**, os ydych **chi** wedi trefnu i'r **offer mesur** hwnnw gael ei osod;
- symud unrhyw beth sy'n rhwystro mynediad diogel i unrhyw **offer mesur**;
- unrhyw gysylltiad newydd â'r rhwydwaith perthnasol y mae angen iddo gael ei wneud er mwyn i **ni** ddarparu **ygni** i **chi**;
- gosod unrhyw brif bibellau, pibellau neu ddarnau eraill o offer y mae angen eu gosod, eu hamnewid, eu mwyhau, eu hymestyn neu eu hadnewyddu i ganiatáu i **chi** dderbyn cyflenwad nwy neu drydan prif gyflenwad i'r **eiddo**;
- adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus gennych **chi** o dan y **contract**, a allai gynnwys costau cysylltu neu ymweld â **chi**, costau llys, costau cael a gorfodi gwarant i fynd i mewn i'r **eiddo** (gan gynnwys, er enghraifft, i osod **mesurydd rhagdalau**), neu gostau gweinyddol rhesymol;
- ymweld â'r **eiddo** i wneud unrhyw waith a allai fod yn angenrheidiol oherwydd nad ydych **chi** wedi cyflawni eich cyfrifoldebau **chi** o dan y **contract**, gan gynnwys, er enghraifft, os ymyrrwyd â'ch **offer mesur chi** neu os yw unrhyw nwy neu drydan wedi cael ei ddwyn;
- ymweld â'r **eiddo** pan na fyddwch **chi** wedi cadw apwyntiad y cytunwyd arno gyda **ni** neu **ein** cynrychiolwyr **ni**, ar yr amod **ein** bod **ni** neu **ein** cynrychiolwyr **ni** wedi dweud wrthyhych **chi** am unrhyw dâl am fethu apwyntiad pan drefnwyd yr apwyntiad (os oeddech **chi** ar **dariff** cyfnod penodol ar 31 Mawrth 2018, neu os oeddech **chi** wedi cytuno i symud i **dariff** cyfnod penodol ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny, ni fyddwn **ni'n** codi tâl arnoch **chi** am golli apwyntiad ar yr amod eich bod **chi'n** aros ar y **tariff** cyfnod penodol hwnnw);

- unrhyw drethi, **taliadau** neu symiau eraill y mae'n rhaid i **ni** eu casglu gennych **chi** o dan **reoliadau'r diwydiant**; ac
- unrhyw gostau a geir gennym **ni** neu **ein** cynrychiolwyr **ni** oherwydd nad ydych **chi** wedi cyflawni eich cyfrifoldebau **chi** o dan y **contract**.

Os bydd **rheoliadau'r diwydiant** yn **ein** hatal **ni** rhag codi tâl arnoch **chi** am fathau penodol o gostau ychwanegol, ni fyddwn **ni'n** codi tâl arnoch **chi** am y costau hyn. Hefyd, os bydd unrhyw **reoliadau'r diwydiant** yn gosod terfyn ar swm unrhyw gostau ychwanegol y gallwn **ni** eu codi arnoch **chi**, ni fyddwn **ni'n** codi tâl arnoch **chi** am unrhyw symiau uwchlaw'r terfyn hwnnw.

- 6.5 Os byddwn **ni'n** canfod y buoch **chi'n** gwsmer i ni yn y gorffennol a bod arian yn dal i fod yn ddyledus gennych **chi** i **ni** o dan gontract neu gyfrif blaenorol, gallwn **ni** ychwanegu'r symiau hynny at yr hyn sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni** o dan y **contract**.

Os dymunwn, byddwn **ni'n**:

- ysgrifennu atoch **chi** i esbonio sut rydym **ni** wedi cyfrifo'r symiau sydd heb eu talu a sut rydym **ni'n** bwriadu eu hadennill oddi wrthyh **chi**;
- rhoi cyfnod rhesymol i **chi** i ymateb i **ni** ynglŷn â'r symiau sydd heb eu talu, ac yn cadarnhau'r cyfnod hwn pan fyddwn **ni'n** ysgrifennu atoch **chi** (byddwn **ni'n** ystyried unrhyw sylwadau a roddwch **chi** i **ni** yn ystod y cyfnod hwnnw); ac
- yn aros pythefnos o leiaf o'r adeg pan ysgrifennom **ni** atoch **chi'n** wreiddiol cyn i **ni** ychwanegu unrhyw daliadau sydd heb eu talu at eich cyfrif **chi**.

- 6.6 Ni fydd adran 6.5 yn berthnasol os ydych **chi'n** talu trwy **fesurydd rhagdal**, oni bai eich bod **chi'n** cytuno y gallwn **ni** ychwanegu'r symiau sydd heb eu talu at eich cyfrif **chi** a'n bod **ni** wedi cadw at **reoliadau'r diwydiant** sy'n ymwneud ag ychwanegu symiau sydd heb eu talu'n flaenorol at eich cyfrif **chi** gyda **ni**.

- 6.7 Os ydych **chi'n** talu trwy **fesurydd rhagdal** ac mae'n rhaid i **ni** dalu unrhyw daliadau neu symiau eraill i'ch cyflenwr **ynni** blaenorol **chi** mewn cysylltiad â'u cyflenwad nhw i **chi**, gallwn **ni** adennill y taliadau hynny oddi wrthyh **chi**.

- 6.8 Os na fyddwch **chi'n** talu unrhyw fil ar ôl cael nodyn atgoffa cyntaf oddi wrthym **ni**, gallwn **ni** godi llog arnoch **chi** ar y swm sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni**. Bydd unrhyw log yn cael ei godi ar gyfradd flynyddol o 2% yn uwch na chyfradd fenthycy sylfaenol Royal Bank of Scotland plc (neu 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol gyfwerth a ddewiswn **ni**).

- 6.9 Bydd y telerau canlynol yn berthnasol os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **eiddo** lle mae'n rhaid i **chi** dalu **taliadau Bargaen Werdd**.

- Byddwn **ni'n** casglu'r **taliadau Bargaen Werdd** trwy eich biliau trydan **chi**, ac yna'n trosglwyddo'r **taliadau** i'r darparwr **Bargaen Werdd** perthnasol.
- Mae'n rhaid i **chi** dalu **taliadau Bargaen Werdd** gan ddefnyddio'r un dull talu a ddefnyddiwyd **chi** i dalu am eich **ynni chi**. Os oes gennych **chi fesurydd rhagdal**, byddwn **ni'n** casglu unrhyw **daliadau Bargaen Werdd** trwy eich **mesurydd rhagdal chi**.
- Os na fyddwch **chi'n** talu unrhyw **daliadau Bargaen Werdd** pan fyddant yn ddyledus, bydd gennym **ni'r** un hawliau â phetai unrhyw symiau eraill yn ddyledus gennych **chi** i **ni**, gan gynnwys yr hawliau a amlinellir yn adran 6.8 ac adran 15.
- Bydd rhaid i **chi** dalu **taliadau Bargaen Werdd** am y cyfnod cyfan y byddwn **ni'n** cyflenwi trydan i'r **eiddo**. Os oeddech **chi'n** talu **taliadau Bargaen Werdd** cyn i **ni** ddechrau cyflenwi trydan o dan y **contract**, byddwn **ni** ond yn casglu'r taliadau hynny o'r dyddiad y dechreuom **ni** gyflenwi trydan i'r **eiddo**.

7. Sut byddwn ni'n cyfrifo eich defnydd o ynni

- 7.1 Oni bai bod gennych **chi fesurydd rhagdal**, neu **fesurydd deallus** sy'n gweithio'n iawn, dylech **chi** roi darlleniadau mesurydd rheolaidd i **ni**. Efallai y byddwn **ni** neu **ein** cynrychiolwyr **ni'n** ymweld â'r **eiddo** hefyd i ddarllen y mesurydd.
- 7.2 Os oes gennych **chi fesurydd rhagdal**, bydd y **mesurydd rhagdal**'n mesur yr **ynni** rydych **chi'n** ei ddefnyddio yn awtomatig.
- 7.3 Os oes gennych **chi fesurydd deallus** a'i fod yn gweithio ac yn cyfathrebu'n gywir â'n systemau **ni**, byddwn yn defnyddio'r **mesurydd deallus** i fesur eich defnydd **chi** o **ynni** yn yr **eiddo**.
- 7.4 Mae'n bosibl y bydd angen i **ni** amcangyfrif faint o **ynni** rydych **chi** wedi'i ddefnyddio os nad oes gennym **ni'r** holl wybodaeth y mae arnom **ni** ei hangen i gyfrifo'ch defnydd **chi** o **ynni**. Er enghraifft, os oes gennych **chi fesurydd deallus**, mae'n bosibl y bydd angen i **ni** gyfrifo'ch **taliadau chi** yn seiliedig ar eich **defnydd** amcangyfrifedig **chi** o **ynni** o hyd, er enghraifft os yw'r **mesurydd deallus** yn ddiffygiol neu os nad yw'n cyfathrebu'n gywir â'n systemau **ni**.
- 7.5 Os byddwn **ni'n** amcangyfrif eich defnydd **chi** o **ynni** ac yn cymryd neu'n derbyn darlleniad mesurydd cywir yn ddiweddarach, byddwn **ni'n** addasu eich bil nesaf **chi** i adlewyrchu'r darlleniad mesurydd hwnnw.

8. Talu eich taliadau

- 8.1 Bydd y dull y mae'n rhaid i **chi** ei ddefnyddio i dalu'r **taliadau** yn dibynnu ar b'un a gytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni** neu os gwnaethom **ni** gyflenwi **ynni** i **chi** o dan **gontract tybiedig**.
- Os cytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni**, mae'n rhaid i **chi** dalu'r **taliadau** trwy'r dull talu y cytunwyd arno gennych **chi** a gennym **ni** pan lunioch **chi'r contract** gyda **ni**. Bydd hyn wedi'i amlinellu yn y **llythyr cadarnhau tariff**.
 - Os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **gontract tybiedig**, mae'n rhaid i **chi** dalu'r **taliadau** trwy'r dull a bennwyd yn eich **llythyr cadarnhau tariff**. Bydd hyn hefyd yn cael ei nodi ym mhob bil a anfonwn **ni** atoch **chi** neu, os oes gennych **chi fesurydd rhagdal**, drwy ddefnyddio'r **mesurydd rhagdal**.
- Gallai eich dull talu **chi** newid hefyd yn ystod cyfnod y **contract**, yn unol ag adran 13.
- 8.2 Yn unol ag adran 8.8, byddwn **ni'n** anfon bil neu ddatganiad atoch **chi** (naill ai drwy'r post neu at eich cyfrif ar-lein **chi**) o leiaf unwaith y flwyddyn (neu'n amlach yn unol â'r dull talu neu'r **tariff** y cytunoch **chi** arno), ond gallem **ni** anfon bil neu ddatganiad atoch **chi** ar unrhyw adeg. Os oes gennych **chi fesurydd rhagdal**, ni fyddwch **chi'n** cael biliau, ond byddwch **chi'n** cael datganiad blynyddol gennym **ni**.
- 8.3 Oni bai eich bod **chi'n** talu'r **taliadau** trwy Ddebyd Uniongyrchol, trwy **fesurydd rhagdal**, neu drwy drefniant wythnosol neu fisol yr ydych **chi** wedi cytuno arno gyda **ni**, mae'n rhaid i **chi** dalu eich bil **chi** erbyn y dyddiad talu a nodir ar y bil. Os nad oes dyddiad talu wedi'i nodi ar y bil, rydych **chi'n** cytuno i dalu'r bil o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad yr anfonwyd y bil gennym **ni** (fel y'i dangosir ar dudalen gyntaf y bil). Gallwch **chi** dalu eich biliau **chi** trwy unrhyw un o'r dulliau talu a ddisgrifir ar y bil.
- 8.4 Os ydych **chi** wedi cytuno i dalu'r **taliadau** trwy drefniant wythnosol neu fisol (heblaw am Ddebyd Uniongyrchol), mae'n rhaid i **chi** eu talu ar y dyddiad a thrwy'r dull y cytunwyd arno gennych **chi** a gennym **ni**.
- 8.5 Bydd pob bil neu ddatganiad a anfonwn **ni** yn cynnwys gwybodaeth benodol y mae'n rhaid i **ni** ei darparu yn unol â **rheoliadau'r diwydiant**. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys:
- trosolwg o'r **taliadau** a phryd maen nhw'n ddyledus; ac
 - os ydynt yn berthnasol, opsiynau ar gyfer sut y gallwch **chi ein** talu **ni**.

- 8.6 Mae'n rhaid i **chi** dalu eich holl filiau **chi'n** llawn, hyd yn oed os oes gennych **chi** ymholiad ynglŷn â'ch bil **chi**. Mae adran 11 yn esbonio'r hyn y dylech **chi** ei wneud os oes gennych **chi** ymholiad ynglŷn ag unrhyw fil.
- 8.7 Byddwn **ni'n** dangos unrhyw **daliadau Bergen Werdd** ar wahân ar eich bil neu'ch datganiad **chi**. Pryd bynnag y byddwch **chi'n ein** talu **ni**, byddwn **ni'n** dyrannu'r swm priodol i'r **taliadau Bergen Werdd** ac unrhyw **daliadau** eraill sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni**. Os byddwch **chi'n** talu llai i **ni** na'r swm llawn sy'n ddyledus ar unrhyw adeg, byddwn **ni'n** dyrannu eich taliad **chi** yn gymesur â'r **taliadau Bergen Werdd** ac unrhyw **daliadau** eraill sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni**.
- 8.8 Ni fyddwn **ni'n** anfon bil atoch **chi** ar gyfer (nac yn ceisio adennill trwy eich dull talu **chi**, megis trwy **fesurydd rhagdalau**) unrhyw **daliadau** am gyflenwi **ynni** i **chi** oni bai bod y **taliadau**:
- ar gyfer **ynni** rydym ni'n credu'n rhesymol eich bod wedi'i ddefnyddio o fewn y 12 mis blaenorol; neu
 - **daliadau** eraill (er enghraifft, taliadau sefydlog) sydd wedi cronni yn ystod y 12 mis blaenorol.

Fodd bynnag, gallwn **ni** anfon bil atoch **chi** (neu geisio adennill y **taliadau** gennych **chi** trwy eich dull talu **chi**) fwy na 12 mis ar ôl i **chi** ddefnyddio'r **ynni** neu ar ôl i'r **taliadau** gronni:

- os nad oeddem **ni'n** gallu anfon bil atoch **chi** neu adennill y **taliadau** gennych am swm cywir yr **ynni** rydych **chi** wedi'i ddefnyddio o ganlyniad i'ch ymddygiad rhwystrol neu afresymol amlwg **chi** (er enghraifft, os ydych **chi** wedi dwyn **ynni** neu os ydych **chi** wedi gwrthod yn afresymol rhoi mynediad i **ni** i'ch **eiddo chi** i gymryd darlleniadau mesurydd);
- os caniateir i **ni** wneud hynny o dan **reoliadau** perthnasol y **diwydiant**; neu
- os ydym **ni** wedi anfon bil atoch **chi** neu geisio adennill yr un **taliadau** gennych **chi** yn flaenorol yn unol â'r adran 8.8 hon.

9. Telerau sy'n berthnasol os ydych chi'n talu eich taliadau trwy Ddebyd Uniongyrchol misol

- 9.1 Os ydych **chi'n** talu'r **taliadau** trwy **Ddebyd Uniongyrchol** misol, cytunir ar eich swm Debyd Uniongyrchol misol **chi** ar yr adeg pan fyddwch **chi'n** llunio'r **contract** gyda **ni** ac fe'i nodir yn y **llythyr cadarnhau tariff**.
- 9.2 Byddwn **ni'n** adolygu swm eich Debyd Uniongyrchol **chi** unwaith y flwyddyn o leiaf, ac yn amlach os credwn **ni** fod hynny'n briodol. Byddwn **ni'n** dweud wrthy'ch **chi** o leiaf 10 niwrnod cyn i **ni** wneud unrhyw newidiadau i'ch swm Debyd Uniongyrchol misol **chi**.
- 9.3 Mae'r telerau canlynol yn berthnasol yn benodol i'n cynllun talu credyd Debyd Uniongyrchol **ni** (y 'cynllun'). Mae'r cynllun hwn yn gwbl ar wahân i'n trefniadau adolygu Debyd Uniongyrchol arferol **ni**, fel y'u hamlinellir yn adrannau 9.1 a 9.2. Mae mwy o fanylion am y cynllun ar gael yn scottishpower.co.uk neu gallwch **chi** ofyn i **ni** am fanylion ar unrhyw bryd trwy **gysylltu â ni**.
- Byddwn **ni'n** esbonio unrhyw gredyd y gallem **ni** ei dalu i **chi** yn rhan o'r cynllun. Byddwn **ni'n** gwneud hyn yn eich datganiad adolygu blynyddol **chi**, a roddwn **ni** i **chi** ar ôl i **ni** gwblhau'r adolygiad blynyddol. Byddwn **ni'n** talu un credyd i **chi** yn unig ar gyfer unrhyw gyfnod 12 mis.
 - Os na allwn **ni** gyfrifo swm net y credyd (y swm ar ôl didyniadau) yn eich cyfrif **chi** am resymau technegol neu oherwydd nad oeddech **chi** wedi rhoi darlleniad mesurydd cywir a chyfredol i **ni** pan ofynnem **ni** amdano, gallwn **ni** oedi talu unrhyw gredyd sy'n ddyledus i **chi** yn rhan o'r cynllun hyd nes y datrysir unrhyw broblemau.
 - Os byddwch **chi**:
 - (a) wedi symud i gyflenwr arall cyn dyddiad unrhyw adolygiad Debyd Uniongyrchol blynyddol;
 - (b) heb gyflawni unrhyw un o'ch cyfrifoldebau **chi** o dan y **contract**; neu'n

(c) methu â gwneud unrhyw un o'ch taliadau Debyd Uniongyrchol **chi**; ni fydd gennyh **chi** hawl i gael unrhyw daliad credyd yn rhan o'r cynllun.

10. Telerau sy'n berthnasol os ydych chi'n talu eich taliadau trwy fesurydd rhagdal

- 10.1 Os ydych **chi'n** talu'r **taliadau** trwy **fesurydd rhagdal**, mae'n rhaid i **chi** sicrhau bod digon o gredyd yn y **mesurydd rhagdal** i dalu am y **taliadau** sy'n ddyledus ar eich **tariff chi** yn ogystal ag unrhyw **daliadau** eraill sy'n ddyledus.
- 10.2 Os byddwch **chi'n** talu swm i **ni** ar unrhyw adeg, trwy'r **mesurydd rhagdal**, sy'n llai na'r **taliadau** sy'n ddyledus i **ni**, bydd rhaid i **chi** dalu'r gwahaniaeth i **ni**. Byddwn **ni'n** casglu'r gwahaniaeth trwy addasu eich **mesurydd rhagdal chi**, oni bai eich bod **chi'n** cytuno i wneud taliad untro i **ni**.
- 10.3 Mae mwy o wybodaeth am sut gallwch **chi** ychwanegu credyd at eich **mesurydd rhagdal**, a sut byddwn **ni'n** ymdrin ag unrhyw ad-daliadau a allai fod yn ddyledus i **chi**, a'u prosesu, ar gael ar **ein** gwefan **ni** yn scottishpower.co.uk neu drwy **gysylltu â ni**.

11. Beth i'w wneud os oes gennyh chi ymholiad ynglŷn â'ch bil

- 11.1 Os oes gennyh **chi** ymholiad ynglŷn ag unrhyw un o'ch biliau neu'ch datganiadau **chi**, dylech **chi** gysylltu â **ni** a byddwn **ni'n** ceisio datrys y mater.
- 11.2 Os ydych **chi** wedi cysylltu â **ni** i roi gwybod i **ni** fod gennyh **chi** ymholiad ynglŷn â bil, mae'n rhaid i **chi** barhau i dalu eich biliau **chi** yn unol â thelerau'r **contract** tra byddwn **ni'n** ymchwilio i'ch ymholiad **chi**.
- 11.3 Os byddwn **ni'n** cytuno y bu camgymeriad mewn bil, byddwn **ni'n** addasu eich bil nesaf **chi** i unioni'r camgymeriad.

12. Ein hawliau ni i ofyn am ernes

- 12.1 Os ydych **chi** eisiau symud o **fesurydd rhagdal** i fesurydd credyd ac nid ydych **chi'n** llwyddo i basio **ein** gwiriad credyd **ni**, gallwn **ni**, ar unrhyw adeg, ofyn i **chi** dalu **ernes**.
- 12.2 Efallai y byddwn **ni** hefyd yn gofyn i **chi** dalu **ernes** i **ni** ar unrhyw adeg arall os yw'n rhesymol i **ni** wneud hynny (er enghraifft, os nad ydych **chi'n** talu unrhyw **daliadau** i **ni** erbyn y dyddiad pan fyddant yn ddyledus).
- 12.3 Heblaw pan fyddwn **ni'n** gofyn i **chi** dalu **ernes** fel amod newid o **fesurydd rhagdal** i fesurydd credyd (gweler adran 12.1), ni fyddwn **ni'n** gofyn i **chi** dalu **ernes** os ydych **chi'n** talu eich biliau **chi** trwy **fesurydd rhagdal**.
- 12.4 Bydd unrhyw **ernes** y gofynnwn **ni** amdani'n rhesymol. Byddwn **ni'n** rhoi gwybod i **chi** faint yw'r **ernes** a pha mor hir sydd gennyh i'w thalu, a beth fydd yn digwydd os na fyddwch **chi'n** ei thalu o fewn y cyfnod hwnnw. Byddwn **ni** hefyd yn dweud wrthyh **chi** sut y byddwn **ni'n** dal yr **ernes**, gan gynnwys pryd y byddwn **ni'n** ei defnyddio a phryd y byddwn **ni'n** ei had-dalu i **chi**.
- 12.5 Oni bai **ein** bod **ni'n** cytuno'n wahanol â **chi**, os byddwch **chi'n** talu mwy na'r swm a nodir ar eich bil **chi**, ni fyddwn **ni'n** ystyried hyn yn **ernes** at ddibenion y **contract**.

13. Newid eich dull talu

- 13.1 Gallwch **chi** ofyn am gael newid eich dull talu **chi** ar unrhyw bryd trwy **gysylltu â ni**. Gallai unrhyw newid i'ch dull talu **chi** hefyd arwain at newid i'ch **tariff** neu'ch **taliadau chi** (neu'r

ddau), fel yr esbonnir yn adran 13.4. Os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **contract tybiedig** ac rydych **chi** eisiau newid eich dull talu, bydd angen i **chi** gytuno i lunio **contract** gyda **ni**.

- 13.2 Os oes gennych **chi fesurydd rhagdal**u ac rydych **chi** eisiau newid i fesurydd credyd, byddwn **ni'n** trefnu i'ch **mesurydd rhagdal**u **chi** gael ei ddisodli gan fesurydd credyd (neu, yn achos **mesurydd deallus**, ei newid o'r modd rhagdal i'r modd credyd), ar yr amod:
- nad oes gennych **chi** unrhyw **daliadau'n** ddyledus i **ni** pan fyddwch **chi'n** gofyn i **ni** newid y mesurydd;
 - eich bod **chi'n** llwyddo i basio **ein** gwiriad credyd **ni**; ac
 - eich bod **chi'n** talu unrhyw **ernes** i **ni** y gallem **ni** ofyn amdani fel amod o newid eich mesurydd **chi**.
- 13.3 Efallai y byddwn **ni'n** newid eich dull talu **chi** (a'ch **tariff chi**) ar unrhyw adeg:
- os nad ydych **chi'n** talu unrhyw **daliadau'n** llawn ac erbyn y dyddiad dyledus (er enghraifft, gallem **ni** newid eich dull talu **chi** fel eich bod **chi'n** talu trwy arian parod a dweud wrthy'ch **chi** am unrhyw newid i'r **taliadau**, neu efallai y byddwn **ni'n** cymryd y camau yn adran 15); neu
 - os byddwn **ni'n** tynnu eich **tariff chi** yn ôl ac nid yw'ch dull talu cyfredol **chi** ar gael ar **dariff** arall.
- 13.4 Gallai'r **taliadau** y byddwch **chi'n** eu talu a rhai o delerau eraill y **contract** (er enghraifft, eich **tariff chi** neu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i **chi** dalu eich bil **chi**) ddibynnu ar eich dull talu **chi**. Os bydd eich dull talu **chi'n** newid am unrhyw reswm, byddwn **ni'n** dweud wrthy'ch **chi** am unrhyw newidiadau y byddwn **ni'n** eu gwneud i'r **taliadau** ac unrhyw delerau eraill y **contract**, yn ogystal â'r dyddiad pan ddaw'r newidiadau hynny i rym.
- 13.5 Os bydd angen i **ni** amnewid unrhyw ran o'ch **offer mesur chi** i newid eich dull talu **chi**, efallai y byddwn **ni'n** codi tâl arnoch **chi** am gostau gwneud y newid hwnnw, yn unol â **rheoliadau'r diwydiant**. Os yw'n bosibl, byddwn **ni'n** ceisio dweud wrthy'ch **chi** am y symiau hyn cyn i **ni** godi tâl arnoch **chi** amdanynt.

14. Sut byddwn ni'n defnyddio'r symiau a dalwch

- 14.1 Byddwn **ni'n** defnyddio'r symiau a dalwch **chi** i **ni** i dalu'r **taliadau** fel y gwelwn **ni** orau. Er enghraifft, efallai y byddwn **ni'n** ychwanegu'r symiau a dalwch **chi** tuag at eich **taliadau** hynaf **chi** sydd heb eu talu. Nid yw'r adran 14.1 hon yn berthnasol i **daliadau Bargaen Werdd**, a fydd yn cael eu dyrannu yn unol ag adran 8.8.
- 14.2 Os byddwn **ni'n** canfod bod gennych **chi** falans credyd o dan contract neu gyfrif blaenorol gyda **ni**, gallwn **ni** gynnwys y credyd hwnnw yn eich cyfrif **chi** o dan y **contract**, yn enwedig i leihau unrhyw swm a allai fod yn ddyledus gennych **chi** i **ni**. Os oes gennych **chi** falans credyd ar eich cyfrif **chi** o dan y **contract** neu **contract tybiedig**, mae gennych chi'r hawl i ddewis defnyddio'r balans credyd hwnnw i leihau unrhyw swm a allai fod yn ddyledus gennych **chi** i **ni** (p'un a ydym **ni** yn parhau i ddal trwydded sy'n rhoi'r hawl i **ni** gyflenwi **ynni** i'r **eiddo** ai peidiod).
- 14.3 Pan fydd y **contract** yn **contract tybiedig** sydd wedi codi oherwydd bod Cyfarwyddyd Cyflenwi Dewis Olaf wedi cael ei wneud o'n plaid ni, a phan fyddwn wedi ymrwymo i wneud hynny, bydd unrhyw falans(au) credyd sy'n ddyledus am gyflenwi trydan a/neu nwy i gwsmeriaid y mae'r Cyfarwyddyd yn berthnasol iddynt yn cael ei gredydu i'ch cyfrif ScottishPower neu ei ddarparu i chi fel arall o dan y **contract tybiedig**.
- 14.4 Os byddwch **chi'n** talu llai i **ni** na'r swm sy'n ddyledus i **ni**, ac rydym **ni'n** derbyn y swm hwn a'i gymhwyso i'ch cyfrif **chi**:
- nid yw hyn yn golygu **ein** bod **ni'n** derbyn eich taliad **chi** fel setliad llawn a therfynol o'r swm

perthnasol sy'n ddyledus i **ni**; a

- byddwch **chi'n** gyfrifol o hyd am dalu'r balans sy'n weddill i **ni** yn unol â thelerau'r **contract**.

14.5 Os ydych **chi** wedi talu **ernes** i **ni**, gallwn **ni** ddefnyddio'r **ernes** honno i dalu unrhyw **daliadau** sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni** ar unrhyw adeg.

15. Beth fydd yn digwydd os ydych **chi'n** cael trafferth talu eich biliau

15.1 Os ydych **chi'n** cael trafferth talu eich biliau **chi**, rydym **ni'n** argymhell eich bod **chi'n** cysylltu â **ni** cyn gynted â phosibl. Byddwn **ni'n** ceisio eich helpu **chi**, er enghraifft, trwy roi gwybod i **chi** am ddulliau talu neu dariffau eraill, trafod eich opsiynau **chi** ar gyfer talu unrhyw ddyled, a rhoi cyngor ar effeithlonrwydd **ynni** i'ch helpu **chi** i leihau eich costau **ynni chi**.

15.2 Os na fyddwch **chi'n** talu unrhyw un o'ch biliau **chi** yn unol â thelerau'r **contract**, neu os byddwch **chi'n** cysylltu â **ni** i roi gwybod i **ni** eich bod **chi'n** cael trafferth talu eich biliau **chi**, gallwn **ni**:

- newid eich dull talu **chi** (a'ch **tariff chi**) trwy osod **mesurydd rhagdal** yn yr **eiddo** neu drwy newid eich **mesurydd deallus chi** i'r modd rhagdal, yn unol ag adran 15.3;
- cytuno ar gynllun talu gyda **chi** i adennill unrhyw symiau sy'n weddill trwy randaliadau dros gyfnod y cytunwn **ni** arno gyda **chi** (heblaw trwy **fesurydd rhagdal**), yn unol ag adran 15.4; neu
- os yw'n berthnasol, cytuno gyda **chi** y bydd y **taliadau'n** cael eu cymryd yn uniongyrchol o fudd-dal rydych **chi'n** ei gael gan y wladwriaeth.

Os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **contract tybiedig**, ac rydych **chi** eisiau cytuno ar gynllun talu gyda **ni** neu eisiau i'ch **taliadau chi** gael eu cymryd o fudd-dal rydych **chi'n** ei gael gan y wladwriaeth, bydd angen i **chi** gytuno i lunio **contract** gyda **ni**. Ar yr adeg honno, bydd eich **contract tybiedig chi'n** dod i ben. Os na fyddwch **chi**, ar ôl cytuno i'ch taliadau **chi** gael eu cymryd yn uniongyrchol o fudd-dal rydych **chi'n** ei gael gan y wladwriaeth, yn derbyn y cyfryw fudd-dal gan y wladwriaeth mwyach, gallwn drafod a chytuno ar yr opsiynau talu eraill gyda **chi**, y cyfeirir atynt uchod.

15.3 Os byddwch **chi** a byddwn **ni'n** cytuno (neu fel yr amlinellir yn adran 15.5) y bydd **mesurydd rhagdal** cael ei osod yn yr **eiddo** neu y bydd eich **mesurydd deallus chi'n** cael ei newid i'r modd rhagdal:

- bydd y **mesurydd rhagdal** casglu'r **taliadau** o'r adeg honno ymlaen, yn ogystal ag unrhyw **daliadau** a allai fod yn ddyledus gennych **chi** o hyd;
- bydd y **mesurydd rhagdal** casglu unrhyw **daliadau** sy'n weddill ar gyfradd sy'n ystyried eich gallu **chi** i dalu; (ii) unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarparwyd gan drydydd partïon sydd ar gael i **ni**, a (iii) gwerth yr holl **daliadau** sydd i'w hadennill trwy'r **mesurydd rhagdal**; ac
- ni fyddwn **ni'n** gosod **mesurydd rhagdal** nac yn newid eich **mesurydd deallus chi** i'r modd rhagdal oni bai bod hynny'n ddiogel ac yn rhesymol ymarferol.

15.4 Os byddwn **ni'n** cytuno i lunio cynllun talu gyda **chi**, bydd y canlynol yn berthnasol.

- Byddwch **chi'n** talu unrhyw symiau sy'n weddill mewn rhandaliadau dros gyfnod y cytunir arno gennych **chi** a gennym **ni**. Bydd swm y rhandaliadau wedi'i seilio ar eich gallu **chi** i dalu a bydd yn ystyried gwybodaeth berthnasol a ddarparwyd gan drydydd partïon sydd ar gael i **ni**.
- Byddwch **chi** hefyd yn gallu gwneud taliadau untro i leihau'r swm sy'n weddill ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y cynllun talu.
- Yn ogystal â'r rhandaliadau sy'n ddyledus o dan unrhyw gynllun talu cytunedig, mae'n rhaid i **chi** barhau i dalu'r holl **daliadau** ar gyfer **ynni** a gyflenwn **ni** i **chi**, trwy'r dull talu a gytunwyd

gennych **chi** ac yn unol â thelerau'r **contract**.

- Os na fyddwch **chi'n** gwneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus o dan gynllun talu cytunedig, bydd y swm llawn sy'n weddill yn ddyledus ar unwaith a bydd rhaid i **chi** ei dalu. Yna, mae'n bosibl y byddwn **ni'n** gosod **mesurydd rhagdal** yn yr **eiddo** neu'n newid eich **mesurydd deallus chi** i'r modd rhagdal.
- Os byddwch **chi'n** symud allan o'r **eiddo** neu os daw'r **contract** i ben am unrhyw reswm arall, bydd y swm llawn sy'n weddill o dan unrhyw gynllun talu y cytunwyd arno gennym **ni** yn ddyledus ar unwaith a bydd rhaid i **chi** ei dalu, oni bai y cytunwn **ni** â **chi** y bydd eich cynllun talu **chi'n** parhau. Os byddwch **chi'n** symud i **eiddo** newydd, mae'n bosibl y byddwn **ni'n** cytuno i sefydlu cynllun talu newydd i adennill y swm sy'n weddill o dan gontract newydd rhyngoch **chi** a **ni** i gyflenwi **ynni** i'ch cartref newydd **chi**.

15.5 Os:

- na fyddwch **chi'n** cytuno ag un o'r opsiynau a amlinellir yn adran 15.2;
- os na fyddwch **chi'n** gwneud taliadau o dan unrhyw gynllun talu yr ydym **ni** wedi cytuno arno gyda **chi**; neu
- os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **gontract tybiedig** ac nid ydych **chi'n** talu unrhyw **daliadau** i **ni** yn unol â thelerau'r **contract**;

gallwn **ni** osod **mesurydd rhagdal** yn yr **eiddo** neu newid eich **mesurydd deallus chi** i'r modd rhagdal, a bydd telerau adran 15.3 yn gymwys.

Ni fyddwn **ni'n** cymryd unrhyw gamau i adennill **taliadau** sy'n weddill trwy unrhyw fodd arall oni bai eich bod yn torri unrhyw un o'r telerau y cytunwyd arnynt yn unol â'r adran 15 hon a/ neu rydych **chi** a **ni** yn cytuno fel arall.

16. Gosod eich mesurydd a gofalu amdano

- 16.1 Mae'n rhaid i **chi** sicrhau bod gan yr **eiddo** fesurydd addas sy'n bodloni **rheoliadau'r diwydiant** mewn perthynas â diogelwch, cywirdeb a dibynadwyedd, ac sy'n gallu darparu'r holl wybodaeth y mae arnom **ni** ei hangen i gyflenwi a mesur eich defnydd **chi** o **ynni** yn unol â'ch **tariff chi**. Mae'n rhaid i **chi** ganiatáu i'r holl **offer mesur** awdurdodedig sydd wedi'i osod yn yr **eiddo** ac sy'n gweithio'n iawn aros yn ei le, oni bai eich bod **chi** eisiau gosod eich mesurydd **chi** eich hun o dan adran 16.3.
- 16.2 Os nad oes gennych **chi** fesurydd addas sy'n gweithio'n iawn wedi'i osod ar gyfer pob math o **ynni** rydym **ni'n** ei gyflenwi ar y dyddiad y mae'r **contract** yn dechrau (neu ar unrhyw adeg arall), gallwn **ni** osod mesurydd yn yr **eiddo** (neu drefnu i un gael ei osod).
- 16.3 Gallwch **chi** wneud eich trefniadau **chi** eich hun ar gyfer gosod mesurydd, ar yr amod bod y mesurydd yn bodloni **rheoliadau** perthnasol **y diwydiant**. Nid ydym **ni'n** gyfrifol am unrhyw ddiffygion na phroblemau eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw **offer mesur** rydych **chi** wedi trefnu iddo gael ei osod.
- 16.4 Mae'n rhaid i **chi** ofalu am yr holl **offer mesur** a pheidio â'i ddifrodi nac ymyrryd ag ef. Yn arbennig, mae'n rhaid i **chi** beidio ag ymyrryd ag unrhyw **offer mesur** na'i rwystro mewn ffordd sy'n golygu ei fod wedi'i atal neu ei gyfyngu rhag cofnodi gwybodaeth am eich defnydd **chi** o **ynni** neu gyfleu'r wybodaeth honno i **ni** neu **ein** cynrychiolwyr **ni**.
- 16.5 Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os bydd un o'r canlynol yn berthnasol i unrhyw **offer mesur**:
- os ymyrrir ag ef, os yw'n cael ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi, neu os yw'n rhoi'r gorau i

weithio; neu

- os yw unrhyw beth yn effeithio arno (neu'n debygol o effeithio arno) a allai **ein** hatal **ni** rhag defnyddio'r **offer mesur** i ddarllen y mesurydd neu ei ddefnyddio at y dibenion a nodir yn y **contract**.
- 16.6 Os byddwch **chi** a byddwn **ni'n** anghytuno ynglŷn â chywirdeb y darlleniadau a gymerir o'ch mesurydd, byddwn **ni'n** trefnu i'r mesurydd gael ei archwilio a'i brofi. Os canfyddir bod y mesurydd yn gywir, bydd y sawl a gredodd ei fod yn anghywir yn talu am y gost archwilio a phrofi.
- 16.7 Byddwch **chi'n** gyfrifol bob amser am yr offer trydanol a nwy (gan gynnwys pibellau a gwifrau) yn yr **eiddo**. Mae'n rhaid i **chi** sicrhau bod yr offer hwn yn cael ei gadw mewn cyflwr da, a'ch bod **chi'n** ei ddefnyddio yn unol â'r gyfraith.
- 16.8 Mae rhai telerau ac amodau ychwanegol yn berthnasol os oes gennych **chi fesurydd deallus** – gweler adran 36.

17. Pryd y gallai fod angen i ni gael mynediad i'ch eiddo

- 17.1 Rydych **chi'n** cytuno i roi mynediad i'r **eiddo** i **ni** ac unrhyw **gorff** arall y **diwydiant** (a'n cynrychiolwyr **ni** a'u cynrychiolwyr nhw) ar unrhyw adeg os oes angen i **ni** neu nhw gael mynediad iddo am unrhyw un o'r rhesymau canlynol.
- Os oes argyfwng.
 - Os oes perygl i fywyd neu **eiddo**.
 - I osod, gweithredu, cynnal a chadw, darllen, datgysylltu, arwahanu, atgyweirio neu amnewid unrhyw offer sy'n ymwneud â chyflenwi **ygni** i **chi**, gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw **offer mesur**, gwifrau neu bibellau.
 - I ddatgysylltu neu derfynu'r cyflenwad **ygni** i'r **eiddo**, os oes gennym **ni'r** hawl i wneud hynny o dan delerau'r **contract** neu unrhyw **reoliadau'r diwydiant** sy'n berthnasol.
 - I osod **mesurydd rhagdal** neu newid eich **mesurydd deallus chi** i'r modd rhagdal, os oes gennym **ni'r** hawl i wneud hynny o dan delerau'r **contract** neu unrhyw **reoliadau'r diwydiant** sy'n berthnasol.
 - I gasglu unrhyw **offer mesur** rydym **ni'n** berchen arno, ar ôl i'r **contract** ddod i ben.
 - I archwilio neu brofi unrhyw **offer mesur** neu gysylltiad nad ydym **ni** wedi'i osod.
 - Unrhyw ddiben arall a ganiateir neu sy'n angenrheidiol yn unol ag unrhyw **reoliadau'r diwydiant** sy'n berthnasol.
- 17.2 Mae'n rhaid i **chi** sicrhau bod mynediad i'r **eiddo'n** ddiogel ac nad yw **offer mesur** wedi'i rwystro. Os yw wedi'i rwystro, bydd rhaid i **chi** symud y rhwystr ar eich traul **chi** eich hun.

18. Pryd y gallwn ddatgysylltu, atal neu newid eich cyflenwad ygni

- 18.1 Gallwn **ni** ddatgysylltu, atal neu newid y cyflenwad **ygni** i **chi** am y rhesymau canlynol.
- Os oes argyfwng.
 - Os oes perygl i fywyd neu **eiddo**.
 - Os ydych **chi** neu os ydym **ni** wedi terfynu'r **contract**, yn unol â'i delerau (gan gynnwys, er enghraifft, os nad ydych **chi** wedi talu **taliadau** sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni**).
 - Os ydym **ni'n** cael **ein** hatal rhag chyflenwi eich **ygni chi** o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth resymol **ni**.
 - Os yw **corff** arall y **diwydiant** yn dweud wrthym **ni** am ddatgysylltu, atal neu newid y

cyflenwad **ywni** i **chi**, neu os yw unrhyw beth y mae **corff** arall y **diwydiant** wedi'i wneud neu heb ei wneud yn golygu bod rhaid i **ni** ddatgysylltu, atal neu newid y cyflenwad **ywni** i **chi**.

- Unrhyw reswm arall a ganiateir neu sy'n angenrheidiol yn unol ag unrhyw **reoliadau'r diwydiant** sy'n berthnasol.

18.2 Byddwn **ni'n** datgysylltu, atal neu newid y cyflenwad **ywni** i **chi** yn unol â **rheoliadau'r diwydiant** sy'n berthnasol yn unig.

18.3 Os yw unrhyw beth rydych **chi** wedi'i wneud neu heb ei wneud wedi achosi i'ch cyflenwad **ywni chi** gael ei ddatgysylltu, ei atal neu ei newid, mae'n bosibl y bydd rhaid i **chi** dalu tâl rhesymol i adfer eich cyflenwad **chi**.

19. Pryd y gallwn ni newid eich contract

19.1 Gallwn **ni** newid unrhyw un o delerau'r **contract** (gan gynnwys, er enghraifft, cyfraddau'r **taliadau**) ar unrhyw adeg trwy gyhoeddi manylion y newidiadau ar **ein** gwefan **ni** neu drwy anfon hysbysiad atoch **chi** amdanynt.

19.2 Fodd bynnag, os ydym **ni** wedi cytuno i gyflenwi **ywni** i **chi** ar **dariff** cyfnod penodol, tra bod y **tariff** cyfnod penodol hwnnw ar waith, ni fyddwn **ni'n**:

- cynyddu unrhyw un o gyfraddau sefydlog y **taliadau** sy'n berthnasol o dan y **tariff** cyfnod penodol hwnnw; nac yn
- gwneud unrhyw newidiadau eraill i delerau'r **contract** a fyddai er anfantais i **chi**.

Ni fydd yr adran 19.2 hon yn **ein** hatal **ni** rhag cynyddu'r cyfraddau sy'n berthnasol o dan eich **tariff chi** na gwneud unrhyw newidiadau eraill i delerau'r **contract** sydd er anfantais i **chi** yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 19.5.

19.3 Fel arfer, bydd unrhyw newidiadau i'r **contract** yn dod i rym o'r dyddiad y byddwn **ni'n** eu cyhoeddi ar **ein** gwefan **ni** neu o'r dyddiad a nodir yn **ein** hysbysiad **ni** i **chi** (pa un bynnag sy'n berthnasol). Fodd bynnag, os cytunoch **chi** i lunio **contract** gyda **ni** a byddai newid arfaethedig yn achosi anfantais i **chi** (gan gynnwys, er enghraifft, cynnydd yng nghyfraddau eich **tariff chi**), byddwn **ni'n** dilyn y broses yn adran 19.4. Os ydym **ni'n** cyflenwi **ywni** i **chi** o dan **contract tybiedig**, nid oes rhaid i **ni** ddilyn y broses yn adran 19.4 (hyd yn oed os byddai'r newid arfaethedig yn achosi anfantais i **chi**), a bydd unrhyw newidiadau i'r **contract** yn dod i rym o'r dyddiad y byddwn **ni'n** eu cyhoeddi ar **ein** gwefan **ni**.

19.4 Os cytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni**, byddwn **ni'n** gwneud y canlynol os bwriadwn **ni** wneud newid i'r **contract** a fyddai er anfantais i **chi**.

- Byddwn **ni'n** rhoi o leiaf 30 niwrnod o rybudd ysgrifenedig i **chi** o'r newid arfaethedig.
- Ni fydd y newid yn berthnasol i **chi** os, o fewn 20 niwrnod gwaith o'r dyddiad y daw'r newid i rym (fel y'i nodir yn **ein** hysbysiad **ni**):
 - rydych **chi'n** cytuno i symud i **dariff** neu **gontract** newydd gyda **ni**; neu
 - rydych **chi** neu gyflenwr **ywni** arall yn dweud wrthym **ni** eich bod **chi'n** newid cyflenwr, ac rydych **chi'n** symud i gyflenwr arall o fewn cyfnod rhesymol (20 niwrnod gwaith, fel arfer).
- Os na fyddwch **chi'n** llunio **contract** newydd gyda **ni** neu gyflenwr newydd, bydd y newid arfaethedig yn dod i rym yn awtomatig o'r dyddiad a nodir yn **ein** hysbysiad **ni** i **chi**.
- Os byddwch **chi'n** ceisio newid cyflenwr fel yr amlinellir yn yr adran 19.4 hon, ond mae gennych **chi daliadau'n** ddyledus i **ni** o hyd, mae'n bosibl y byddwn **ni'n** dweud wrth eich cyflenwr newydd **chi ein** bod **ni'n** gwrthwynebu eich bwriad **chi** i newid cyflenwr hyd nes y byddwch **chi** wedi talu'r swm sy'n ddyledus.
- Os byddwch **chi'n**:
 - talu'r **taliadau** sy'n ddyledus o fewn 30 niwrnod gwaith o'n hysbysiad **ni** o wrthwynebu

eich bwriad **chi** i newid cyflenwr; neu'n

- talu trwy **fesurydd rhagdal**u a'ch bod **chi'n** cytuno â'ch cyflenwr newydd **chi** y gall y **taliadau** sy'n ddyledus gael eu trosglwyddo iddyn nhw (yn unol â Phroses Aseinio Dyled berthnasol y diwydiant);

gallwch **chi** fynd ymlaen i newid cyflenwr ac ni fyddwn **ni'n** gwneud y newid i'r **contract** hyd nes y bydd y broses newid wedi'i chwblhau (ar yr amod bod y broses newid yn cael ei chwblhau o fewn cyfnod rhesymol (20 niwrnod gwaith, fel arfer)).

19.5 Ni fyddwn **ni'n** cael **ein** hatal rhag gwneud unrhyw newidiadau i'r **contract** (hyd yn oed os yw'r **contract** ar gyfer **tariff** cyfnod sefydlog), ac nid oes rhaid i **ni** ddilyn y broses o dan adran 19.4 i wneud y newid, yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol.

- Os oes newid i'r gyfradd TAW sy'n berthnasol i unrhyw ran o'r taliadau ac rydym **ni'n** newid y swm hwnnw i adlewyrchu'r newid.
- Os ydym **ni** wedi newid eich dull talu **chi** o dan adran 15.5 oherwydd nad ydych **chi** wedi talu unrhyw **daliadau** i **ni** yn unol â'r **contract**, ar yr amod **ein** bod **ni** wedi newid y dull talu yn unol ag adran 15.5.
- Os oes hawl gennym **ni** i wneud y newid er anfantais i **chi** o dan **reoliadau'r diwydiant**.

19.6 Yn ogystal â'n hawliau **ni** o dan adrannau 19.1 i 19.5, mae'n bosibl y gofynnwn **ni** i **chi** gytuno ar gynydd yng nghyfraddau eich **tariff chi** neu unrhyw newid arall i delerau'r **contract** sydd er anfantais i **chi**. Os bwriadwn **ni** weithredu cynnydd neu newid o dan yr adran 19.6 hon, byddwn **ni'n** gwneud y canlynol.

- Byddwn **ni'n** eich hysbysu **chi** am y cynnydd neu'r newid arfaethedig, gan gynnwys y dyddiad pan ddaw i rym, ac yn gofyn i **chi** gytuno â'r cynnydd neu'r newid. Nid oes rhaid i **chi** dderbyn y cynnydd neu'r newid arfaethedig.
- Os byddwch **chi'n** cytuno â'r cynnydd neu'r newid, mae'n rhaid i **chi** roi gwybod i **ni'n** ysgrifenedig (gan gynnwys trwy neges e-bost), oni bai **ein** bod **ni'n** dweud wrthywch **chi** y gallwch **chi** ddefnyddio dull arall. Byddwn **ni'n** cadarnhau eich bod **chi** wedi cytuno â'r cynnydd neu'r newid, ac effaith y cynnydd neu'r newid, yn ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith o'r dyddiad y rhoddoch **chi** gadarnhad i **ni** eich bod **chi'n** cytuno â'r cynnydd neu'r newid (neu gyn gynted â phosibl ar ôl hynny).

20. Ein safonau gwarantedig a sut gallwch chi gwyno

20.1 Mae **ein** taflen 'Safonau Gwarantedig' **ni** yn amlinellu rhai safonau y mae'n rhaid i **ni** eu bodloni wrth gyflenwi **ynni** i **chi**, a'r trefniadau digolledu sy'n berthnasol os na lwyddwn **ni** i gyrraedd y safonau hynny. Rydym **ni'n** diweddarau'r daflen hon yn rheolaidd a byddwn **ni'n** cyhoeddi copi ohoni ar **ein** gwefan **ni** yn scottishpower.co.uk/standards. Gallwch **chi** ofyn am gopi hefyd trwy **gysylltu â ni**.

20.2 Pan fyddwn **ni'n** anfon bil neu ddatganiad atoch **chi**, byddwn **ni** hefyd yn anfon manylion atoch **chi** ynglŷn â sut gallwch **chi** gwyno am unrhyw ran o'n gwasanaeth **ni**. Yn ogystal, mae **ein** Siarter Ymdrin â Chwynion **ni** ar gael yn scottishpower.co.uk/customer-charters, neu drwy **gysylltu â ni**.

21. Eich hawl i derfynu eich contract pan fyddwch chi'n symud cartref

21.1 Os ydych **chi'n** symud allan o'r **eiddo**, gallwch **chi** derfynu'r **contract** trwy roi o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o rybudd i **ni** (neu unrhyw gyfnod byrrach y cytunwn **ni** arno) cyn i **chi** symud allan.

21.2 Os byddwch **chi'n** rhoi rhybudd i **ni** yn unol ag adran 21.1, bydd y **contract** yn dod i ben ar y dyddiad y symudwch **chi** allan. Fodd bynnag, os byddwch **chi'n** parhau i berchen ar yr **eiddo**

ar ôl y dyddiad hwnnw, byddwch **chi'n** parhau i fod yn gyfrifol am gyflenwi **ynni** hyd nes y daw perchennog neu feddiannwr newydd yn gyfrifol amdano.

- 21.3 Os na fyddwch **chi'n** rhoi rhybudd i **ni** yn unol ag adran 21.1, bydd y **contract** yn parhau hyd at:
- ddau ddiwrnod gwaith ar ôl i **chi** ddweud wrthym **ni** (a rhoi unrhyw dystiolaeth i **ni** y gofynnwn **ni** amdani'n rhesymol) eich bod **chi** wedi symud allan ac, os yw'n berthnasol, nad ydych **chi'n** berchen ar yr **eiddo** mwyach; neu
 - y dyddiad y mae rhywun arall yn cytuno i gael **ynni** wedi'i gyflenwi i'r un **eiddo**, pa un bynnag sydd gynharach.

22. Newid i gyflenwr ynni newydd

- 22.1 Gallwch **chi** derfynu'r **contract** ar unrhyw adeg (a heb roi rhybudd i **ni**) trwy symud i gyflenwr arall. Fodd bynnag, gallwn **ni** wrthwynebu unrhyw fwriad i symud mewn rhai amgylchiadau, fel y'u disgrifir yn adran 23.
- 22.2 Os byddwch **chi** yn newid oddi wrthym **ni** i gyflenwr newydd, ac mae'r cyflenwr newydd yn dechrau cyflenwi **ynni** i **chi**, ond rydych **chi** yn rhoi gwybod i **ni** eich bod **chi** wedi canslo'r newid hwn o fewn y cyfnod ailfeddwl, byddwn **ni** yn cynnig **contract telerau cyfatebol** i **chi**. Bydd y **contract telerau cyfatebol** yn parhau am 16 diwrnod gwaith o leiaf, yn dechrau o'r diwrnod yr oeddem **ni** wedi rhoi'r gorau i gyflenwi **ynni** i **chi**.
- 22.3 Gallwch **chi** hefyd derfynu'r **contract** os ydym **ni** wedi datgysylltu eich cyflenwad **ynni chi**.
- 22.4 Os byddwch **chi'n** terfynu'r **contract** ar gyfer **tariff** cyfnod sefydlog cyn diwedd y cyfnod sefydlog, mae'n bosibl y bydd rhaid i **chi** dalu ffi ymadael o dan delerau ac amodau eich **tariff chi**. Fodd bynnag, ni fydd rhaid i **chi** dalu'r ffi hon:
- os byddwch **chi'n** cwblhau'r broses symud i gyflenwr arall ar unrhyw adeg ar ôl i **ni** roi hysbysiad i **chi** i derfynu'r tymor sefydlog, oni bai eich bod **chi** eisoes wedi llunio **contract** gyda **ni** ar gyfer **tariff** cyfnod sefydlog newydd; neu
 - os byddwch **chi'n** symud i dariff gwahanol gyda **ni**.
- 22.5 Os ydym **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **contract tybiedig**, bydd y **contract** yn terfynu'n awtomatig yn unol ag adran 5.4.
- 22.6 Os byddwch **chi'n** canslo **contract** nad yw ar gyfer **tariff** cyfnod sefydlog, ni fydd rhaid i **chi** dalu ffi ymadael.

23. Newid i gyflenwr ynni newydd

- 23.1 Mae gennym ni yr hawl o dan **reoliadau'r diwydiant** i wrthwynebu eich bod **chi** yn newid i gyflenwr newydd os ydym **ni** wedi mynnu, yn ysgrifenedig, unrhyw **daliadau** sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni** am gyflenwi nwy neu drydan ac mae'r rhain yn daladwy o hyd o leiaf 28 niwrnod ar ôl dyddiad ein galwad **ni** am dalu.
- 23.2 Os oes gennych **chi fesurydd rhagdal**, ni fyddwn **ni'n** gwrthwynebu bwriad gennych **chi** i symud i gyflenwr newydd:
- os nad yw cyfanswm y **taliadau** sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni** yn fwy na £500 fesul math o **ynni**; ac
 - os ydych **chi** wedi cytuno gyda'ch cyflenwr newydd **chi** y bydd y **taliadau** sy'n ddyledus yn cael eu trosglwyddo iddyn nhw, yn unol â Phroses Aseinio Dyled berthnasol y diwydiant.
- 23.3 Os byddwn **ni'n** gwrthwynebu bwriad gennych **chi** i symud i gyflenwr newydd oherwydd bod **taliadau'n** ddyledus gennych **chi** i **ni**, byddwn **ni'n** dweud wrthy'ch **chi** ac yn rhoi 30 niwrnod

gwaith i **chi** dalu'r **taliadau** hynny o'r dyddiad y rhoddwn **ni** wybod i **chi** o'n gwrthwynebiad **ni**. Pan fyddwn **ni'n** cael taliad am y **taliadau** sy'n ddyledus, byddwch **chi'n** rhydd i symud i gyflenwr newydd.

23.4 Os byddwn **ni'n** gwrthwynebu bwriad gennych **chi** i symud i gyflenwr newydd, bydd y **contract** yn parhau hyd nes:

- y byddwch **chi** wedi talu unrhyw **daliadau** sy'n ddyledus i **ni** a bod cyflenwr arall wedi'i awdurdodi neu ei gofrestru'n briodol i gyflenwi **ynni** i **chi**;
- y byddwn **ni'n** dechrau cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **contract** newydd; neu
- y byddwn **ni'n** datgysylltu eich cyflenwad **chi**.

23.5 Gallwn **ni** hefyd eich atal **chi** rhag newid i gyflenwr ynni newydd cyn y newid os byddwch **chi** yn rhoi gwybod i **ni** nad ydych **chi** wedi llunio contract â chyflenwr newydd, ac yn gofyn i **ni** atal y newid rhag digwydd.

24. Ein hawliau i derfynu eich contract

24.1 Gallwn **ni** derfynu'r **contract** ar unrhyw adeg:

- os na fyddwch **chi'n** talu unrhyw **daliadau** i **ni** pan fyddant yn ddyledus;
- os byddwch **chi'n** defnyddio **ynni** at ddiben gwahanol i hwnnw y cytunasom **ni** i'w gyflenwi ar ei gyfer;
- os bydd **Ofgem** yn cyfarwyddo cyflenwr arall i ddechrau cyflenwi **ynni** i'r **eiddo**;
- os na fyddwn **ni'n** dal trwydded mwyach sy'n rhoi'r hawl i **ni** gyflenwi **ynni** i'r **eiddo**; neu
- os byddwch **chi'n** torri unrhyw un o delerau'r **contract** mewn ffordd arwyddocaol.

Ym mhob achos, byddwn **ni'n** rhoi hysbysiad ysgrifenedig i **chi** a bydd y **contract** yn dod i ben, neu efallai y byddwn **ni'n** datgysylltu eich cyflenwad **ynni chi** ar unrhyw adeg neu ar ôl y dyddiad pan ddaw'r hysbysiad i ben.

24.2 Os cytunoch **chi** i lunio'r **contract** gyda **ni**, yn ogystal â'n hawliau **ni** o dan adran 24.1, gallwn **ni** derfynu'r **contract** neu roi'r gorau i gyflenwi **ynni** i **chi** ar unrhyw adeg trwy roi o leiaf 42 niwrnod o rybudd ysgrifenedig i **chi**. Ni fydd gennym **ni'r** hawl hon os byddwn **ni'n** cyflenwi **ynni** i **chi** o dan **contract tybiedig**.

24.3 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd telerau adrannau 14.2, 14.3, 15.5, 25.2 a 33 yn parhau i fod yn gymwys hyd oed os na fyddwn ni yn dal trwydded mwyach sy'n rhoi'r hawl i **ni** gyflenwi **ynni** i'r **eiddo**.

25. Beth fydd yn digwydd pan fydd eich contract yn dod i ben

25.1 Pan fydd y **contract** yn dod i ben, efallai y gofynnwn **ni** i **chi** ddarparu darlleniadau mesurydd terfynol. Os na fyddwch **chi'n** rhoi darlleniad mesurydd terfynol cywir i **ni** ar gyfer unrhyw **ynni** rydym **ni** wedi'i gyflenwi ac nid ydym **ni'n** cael darlleniadau mesurydd terfynol o ffynhonnell arall (er enghraifft, eich cyflenwr **ynni** newydd **chi**), bydd hawl gennym **ni** i amcangyfrif eich darlleniadau mesurydd terfynol **chi**. Gallen **ni** hefyd godi tâl arnoch **chi** am y gwahaniaeth yn y **taliadau** rhwng y darlleniad mesurydd a roddwyd gennych **chi** (neu a amcangyfrifwyd gennym **ni**) a'r darlleniad mesurydd nesaf a gymerwn **ni** neu a dderbyniwn **ni** ar gyfer yr **eiddo**.

25.2 Byddwn **ni'n** anfon bil terfynol atoch **chi** o fewn chwe wythnos ar ôl i'r **contract** ddod i ben, y bydd rhaid i **chi** ei dalu erbyn y dyddiad dyledus a nodir ar y bil (neu, os nad oes dyddiad dyledus wedi'i nodi ar y bil, bydd rhaid i **chi** ei dalu o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y bil). Os daw gwybodaeth ddilynol ar gael i gywiro bil terfynol a ddarparwyd, byddwn yn anfon bil wedi'i gywiro atoch cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

- 25.3 Ni fydd terfynu'r **contract** yn effeithio ar unrhyw hawliau a chyfrifoldebau a fu gennych **chi**, gennym **ni** neu unrhyw **gyrff y diwydiant** cyn i'r **contract** ddod i ben, neu a fydd yn dod i rym o dan y **contract** neu'n parhau ar ôl y dyddiad y daeth i ben.
- 25.4 Os ydych **chi'n** gyfrifol am dalu **taliadau Bargaen Werdd**, byddwch **chi'n** parhau i fod yn gyfrifol ar ôl i'r **contract** ddod i ben, a bydd eich cyflenwr newydd **chi'n** casglu eich **taliadau Bargaen Werdd chi** pan fydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gyflenwi **ynni i chi**.
- 25.5 Os byddwch **chi** neu os byddwn **ni'n** terfynu'r **contract** ond yn parhau i fod yn gyflenwr cofrestredig i **chi** ar ôl y dyddiad pan ddaw'r **contract** i ben, efallai y byddwn **ni'n** eich symud **chi** i dariff neu gontract arall, a allai fod â phrisiau a thelerau ac amodau gwahanol. Byddwn **ni'n** rhoi gwybod i **chi** am unrhyw dariff a thelerau ac amodau contract newydd.

26. Ein hatebolrwydd i chi

- 26.1 Nid ydym **ni'n** eithrio nac yn cyfyngu **ein** hatebolrwydd **ni** am:
- farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o'n hesgeuluster **ni** neu esgeuluster **ein** cynrychiolwyr **ni**;
 - twyll gennym **ni** neu gan **ein** cynrychiolwyr **ni**; neu
 - unrhyw atebolrwydd arall na allwn **ni** ei eithrio o dan unrhyw gyfraith sy'n berthnasol.
- 26.2 Nid ydym **ni'n** atebol (yn gyfrifol) am unrhyw:
- golled (neu ddifrod) anuniongyrchol neu uniongyrchol sy'n effeithio ar incwm, busnes, contractau, elw neu ewyllys da;
 - colled neu ddifrod na ellid bod wedi'i (d)disgwyl yn rhesymol ar yr adeg y dechreuodd y **contract**;
 - colled neu ddifrod rydych **chi'n** ei (d)dioddef yn rhan o unrhyw gontract neu berthynas arall ag unrhyw unigolyn arall;
 - colled neu ddifrod sy'n deillio o unrhyw achos neu amgylchiadau sydd y tu allan i'n rheolaeth **ni**; neu
 - golled neu ddifrod sy'n deillio o unrhyw beth y mae unrhyw **gorff y diwydiant yn ei wneud neu'n methu â'i wneud**.
- 26.3 Os byddwn **ni'n** atebol am unrhyw golled neu ddifrod o dan y **contract**, bydd **ein** hatebolrwydd **ni i chi'n** gyfyngedig i ddim mwy nag £1,000,000 mewn unrhyw flwyddyn galendr. Ni fydd y terfyn uchaf hwn yn berthnasol i'r atebolrwydd a ddisgrifir yn adran 26.1.

27. Telerau eich contract gyda ni

- 27.1 Mae'r telerau ac amodau hyn, ynghyd â'r **llythyr cadarnhau tariff** (ac unrhyw delerau ac amodau eraill y cyfeirir atynt yn y llyfryn hwn neu yn y **llythyr cadarnhau tariff**), yn ffurfio telerau cyfan y **contract** ar gyfer cyflenwi **ynni i chi**.
- 27.2 Mae **ein** rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau **ni i chi** fel y'u disgrifir yn y **contract**. Ni fydd unrhyw rwymedigaethau, cyfrifoldebau, gwarantau nac amodau eraill na chrybwyllir yn y **contract** yn berthnasol.
- 27.3 Nid yw unrhyw beth yn y **contract** yn effeithio ar **ein** hawliau **ni** o dan unrhyw **reoliadau'r diwydiant** na deddfau eraill perthnasol.
- 27.4 Os oes mwy nag un **cwsmer**, bydd pob un ohonoch **chi'n** gyfrifol (gyda'ch gilydd ac ar wahân) am gyflawni rhwymedigaethau'r **cwsmer** o dan y **contract**, gan gynnwys talu'r **taliadau**.

28. Sut byddwn yn cysylltu â chi

- 28.1 Os byddwch **chi** yn rhoi cyfeiriad e-bost i **ni** wrth lunio **contract** gyda **ni**, byddwn **ni** yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn fel **ein** prif fodd o gyfathrebu â **chi**. Mae hyn yn golygu y byddwn **ni** yn ceisio anfon cyfathrebiadau atoch **chi**, gan gynnwys **eich** biliau, trwy e-bost, pryd bynnag y bo'n bosibl. Os bydd angen i **chi**, gallwch **chi** newid **eich** blaenoriaeth gyfathrebu i'r post unrhyw bryd trwy gysylltu â **ni**.
- 28.2 Os bydd angen i **ni** anfon unrhyw hysbysiad atoch **chi** o dan y **contract**, byddwn **ni'n** anfon yr hysbysiad hwnnw:
- yn ysgrifenedig a'i ddanfon â llaw neu ei bostio atoch **chi** yn yr **eiddo**; neu
 - os ydych **chi** wedi cytuno (er enghraifft, pan gofrestroch **chi** i ddefnyddio **ein** cyfrif ar-lein neu ap ffôn symudol **ni**), byddwn **ni'n** ei anfon atoch **chi** gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost rydych **chi** wedi'i roi i **ni**, neu unrhyw gyfeiriad e-bost arall y gallecth **chi** ei roi i **ni** at y diben hwn.

29. Sut gallwch chi anfon hysbysiadau atom ni

Os bydd angen i **chi** anfon unrhyw hysbysiad atom **ni** o dan y **contract**, mae'n rhaid i **chi** ei anfon:

- yn ysgrifenedig a'i ddanfon â llaw neu ei bostio atom **ni** yn ScottishPower Energy Retail Limited, 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD neu unrhyw gyfeiriad arall y gallem **ni** ei roi i **chi** at y diben hwn;
- at **ein** cyfeiriad e-bost **ni** a roddir yn y **llythyr cadarnhau tariff** neu at unrhyw gyfeiriad e-bost arall y gallem **ni** ei roi i **chi** at y diben hwn, neu drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein y gallem **ni** ei darparu ar **ein** gwefan **ni** neu yn **ein** ap **ni**; neu
- drwy ffonio un o'n cynrychiolwyr awdurdodedig **ni**, neu drwy ddefnyddio gwasanaeth ffôn awtomataidd os yw'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu'n arbennig ar gyfer math penodol o hysbysiad.

30. Gallem ni drosglwyddo'r contract i rywun arall

- 30.1 Gallwn **ni** drosglwyddo unrhyw un neu bob un o'n hawliau a'n cyfrifoldebau **ni** o dan y **contract** (gan gynnwys yr hawl i dderbyn unrhyw daliadau sy'n ddyledus i **ni**) i unigolyn arall heb eich caniatâd **chi**, ar yr amod bod ganddo bob trwydded a chymeradwyaeth gan **Ofgem** a **chyrrff** eraill y **diwydiant** sy'n ofynnol i allu cyflenwi **ygni** i'r **eiddo**. Byddwn **ni'n** rhoi gwybod i **chi'n** ysgrifenedig os bydd hyn yn digwydd.
- 30.2 Bydd yr unigolyn hwnnw'n ymgymryd â'r hawliau a'r cyfrifoldebau fel petai wedi llunio'r **contract** gyda **chi** yn wreiddiol. Byddwn **ni'n** cael **ein** rhyddhau o'n holl gyfrifoldebau **ni** o dan y **contract** a byddwch **chi'n** ymdrin â'r unigolyn arall o hynny ymlaen.
- 30.3 Os nad ydych **chi** yn talu arian sy'n ddyledus gennych **chi** i **ni**, rydych **chi** yn cytuno y gallwn **ni** werthu eich dyled i drydydd parti.

31. Mae angen i chi gael ein caniatâd i drosglwyddo'r contract i rywun arall

Gallwch **chi** drosglwyddo eich hawliau a'ch cyfrifoldebau **chi** o dan y **contract** i unigolyn arall dim ond os byddwn **ni'n** cytuno â hyn yn ysgrifenedig.

32. Beth fydd yn digwydd os bydd llys yn penderfynu bod unrhyw un o delerau'r contract yn anghyfreithlon

Mae pob un o adrannau (ac is-adrannau) y **contract** yn berthnasol ar wahân. Os bydd unrhyw lys neu awdurdod perthnasol yn penderfynu bod unrhyw un ohonynt yn anghyfreithlon, bydd yr adrannau (a'r is-adrannau) sy'n weddill yn aros mewn grym.

33. Gorfodi'r contract

Os na fyddwn **ni'n** mynnu ar unwaith eich bod **chi'n** gwneud unrhyw beth y mae'n ofynnol i **chi** ei wneud o dan y **contract**, neu os ydych **chi** wedi torri unrhyw un o delerau'r **contract** ac rydym **ni'n** oedi cyn cymryd camau yn eich erbyn **chi**, ni fydd hyn yn golygu nad oes rhaid i **chi** wneud y pethau hynny ac ni fydd yn **ein** hatal **ni** rhag gorfodi'r contract yn ddiweddarach. Er enghraifft, os byddwch **chi'n** methu taliad ac nid ydym **ni'n** cysylltu â **chi** i ofyn am y taliad hwnnw ond rydym **ni'n** parhau i ddarparu eich cyflenwad **chi**, bydd rhaid i **chi** wneud y taliad yn ddiweddarach o hyd.

Byddwn **ni'n** sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir (gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, arfer pwerau statudol) gennym **ni** (neu ein cynrychiolwyr) i adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus gennych **chi** i ni, a'r costau y ceisiwn **ni** eu hadennill gennych **chi** o ganlyniad i gymryd camau o'r fath, yn rhesymol yn yr amgylchiadau (oni bai ein bod **ni** yn gwrthwynebu eich bod **chi** yn newid i gyflenwr arall yn unol ag adran 23).

34. Y deddfau sy'n berthnasol i'r contract a ble y gallwch chi ac y gallwn ni ddwyn achos cyfreithiol

- 34.1 Os yw'r **eiddo** yn yr Alban, llywodraethir y **contract** gan ddeddfau'r Alban a gallwch **chi** neu gallwn **ni** ddwyn achos cyfreithiol yn llysoedd yr Alban.
- 34.2 Os yw'r **eiddo** yng Nghymru neu Loegr, llywodraethir y **contract** gan ddeddfau Cymru a Lloegr a gallwch **chi** neu gallwn **ni** ddwyn achos cyfreithiol yn llysoedd Cymru neu Loegr.

35. Sut byddwn ni'n defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth

- 35.1 Byddwn **ni'n** defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth **chi** yn unol â'n cyfrifoldebau **ni** o dan ddeddfau diogelu data. Mae **ein** hysbysiad preifatrwydd **ni'n** disgrifio sut byddwn **ni'n** defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth **chi**.
- 35.2 Gallwch **chi** weld **ein** hysbysiad preifatrwydd **ni** ar **ein** gwefan **ni** yn scottishpower.co.uk/privacy, neu gallwch **chi** ofyn am gopi ohono ar unrhyw adeg trwy **gysylltu â ni**.

36. Telerau sy'n berthnasol os oes gennych chi fesurydd deallus

36.1 Rhoi gwybod i ni a oes gennych chi fesurydd deallus yn eich eiddo

- 36.1.1 Cyn i **ni** ddechrau cyflenwi **ynni** i **chi**, mae'n rhaid i **chi** ddweud wrthym **ni** a oes gennych **chi** **fesurydd deallus** wedi'i osod yn yr **eiddo** a ph'un a'i gosodwyd yn wreiddiol gennym **ni** neu gyflenwr arall (os ydych **chi'n** gwybod hyn).
- 36.1.2 Os gosodwyd y **mesurydd deallus** gan gyflenwr arall, mae'n bosibl na fyddwch **chi** neu na fyddwn **ni'n** gallu defnyddio pob un o'i swyddogaethau. Os felly, byddwn **ni'n** ceisio dweud wrthych **chi** ba swyddogaethau na fyddant ar gael i **chi** neu i **ni**, yn seiliedig ar y wybodaeth

sydd gennym **ni** am y **mesurydd deallus**. Mae'n bosibl y bydd angen i **ni** osod **mesurydd deallus** newydd yn yr **eiddo**.

- 36.1.3 Os gosodwyd neu os darparwyd y **mesurydd deallus** a'r **uned arddangos yn y cartref** gennym **ni**, byddant yn berchen i **ni** neu **ein** cynrychiolwyr **ni** bob amser.

36.2 Gwybodaeth a gofnodir gan y mesurydd deallus

- 36.2.1 Bydd y **mesurydd deallus** yn cofnodi gwybodaeth am eich defnydd **chi** o **ynni** yn yr **eiddo** yn ystod pob cyfnod hanner awr. Bydd yn dal y wybodaeth honno am hyd at ddwy flynedd.
- 36.2.2 I gyfrifo eich biliau **chi**, byddwn **ni'n** cymryd darlleniadau mesurydd o'r **mesurydd deallus** bob dydd, oni bai eich bod **chi** wedi dweud wrthym **ni** eich bod **chi** eisiau i **ni** gymryd y darlleniadau unwaith y mis yn lle hynny. Neu, gallwn **ni** gymryd darlleniadau ar gyfer pob cyfnod hanner awr yn ystod y dydd (er mwyn cyfrifo eich biliau **chi**) os ydych **chi** wedi cytuno â **ni'n** benodol y gallwn **ni** wneud hynny.
- 36.2.3 Os ydym **ni** wedi dweud wrthych **chi** y byddwn **ni'n** cymryd darlleniadau mesurydd bob dydd, byddwn **ni'n** dechrau cymryd y darlleniadau mesurydd hynny saith diwrnod ar ôl i **ni** ddweud wrthych **chi ein** bod **ni'n** bwriadu gwneud hynny. Os byddwch **chi'n** dweud wrthym **ni** ar unrhyw adeg nad ydych **chi** eisiau i **ni** gymryd darlleniadau mesurydd bob dydd, byddwn **ni'n** cymryd darlleniadau mesurydd unwaith y mis.
- 36.2.4 Gallwch **chi** gysylltu â **ni** ar unrhyw adeg i roi gwybod i **ni** pe byddai'n well gennych **chi** petaen **ni'n** cymryd darlleniadau o'r **mesurydd deallus** bob hanner awr, bob dydd, neu bob mis.

36.3 Uned arddangos ddeallus

- 36.3.1 Bydd yr **uned arddangos ddeallus** yn caniatáu i **chi** weld faint o **ynni** rydych **chi'n** ei ddefnyddio yn yr **eiddo**.
- 36.3.2 Bydd yr **uned arddangos ddeallus** hefyd yn caniatáu i **chi** weld cost yr **ynni** rydych **chi'n** ei ddefnyddio. (Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y costau a ddangosir ar yr **uned arddangos ddeallus** yn cyfateb yn union i'r symiau sy'n ymddangos ar eich bil **chi**.) Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd nad yw'r costau a ddangosir ar yr **uned arddangos ddeallus** yn cynnwys TAW (oni bai bod y **mesurydd deallus** wedi'i osod i weithredu fel **mesurydd rhagdal**) neu oherwydd nad ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiadau a allai fod yn berthnasol yn rhan o'ch **tariff chi**, unrhyw daliadau eraill y gallwn **ni** eu hychwanegu at eich bil **chi** o dan delerau'r **contract**, neu unrhyw gynlluniau neu drefniadau dyled neu randaliadau. Hefyd, mae'n bosibl y bydd yn cymryd ychydig oriau i wybodaeth wedi'i diweddarau am daliadau a wnaed gennych **chi** gyrraedd y **mesurydd deallus**.
- 36.3.3 Mae'n bosibl y bydd unrhyw **uned arddangos yn y cartref** a ddarperir gennym **ni** yn gweithio gyda'r **mesurydd deallus** a osodwyd yn yr **eiddo** yn unig, ac mae'n rhaid i **chi** adael y **mesurydd deallus** a'r **uned arddangos yn y cartref** yn yr **eiddo** os byddwch **chi'n** symud tŷ.
- 36.3.4 Gallai **uned arddangos yn y cartref** gynnwys dyfais ryngwyneb mesurydd rhagdal, sy'n ceisio ei gwneud hi'n haws i **chi** weithredu'r **mesurydd deallus** pan fydd wedi'i osod yn y modd rhagdal. Mewn rhai achosion, gallai'r ddyfais hon fod ar wahân i'r **uned arddangos yn y cartref**. Pan gyfeiriwn **ni** yn y **contract** at yr **uned arddangos yn y cartref**, mae hyn hefyd yn cynnwys, os yw'n berthnasol, unrhyw ddyfais ryngwyneb mesurydd rhagdal ar wahân.

36.4 Defnyddiau eraill y mesurydd deallus

- 36.4.1 Yn ogystal â defnyddio'r **mesurydd deallus** i fesur eich defnydd **chi** o **ynni** a chyfrifo eich biliau **chi**, rydych **chi'n** cytuno y gallwn **ni** ei ddefnyddio i reoli'r cyflenwad **ynni** i'r **eiddo** ac i reoli eich cyfrif **chi** gyda **ni**, heb fod angen i **ni** ymweld â'r **eiddo**.

- 36.4.2 Er enghraifft, gallem **ni** ddefnyddio'r **mesurydd deallus**, yr **uned arddangos ddeallus** a'r wybodaeth a gymerwn **ni** o'r **mesurydd deallus** at y dibenion canlynol, heb ymweld â'r **eiddo**.
- I fonitro, atgyweirio neu ddiweddarau'r **mesurydd deallus**, yr **uned arddangos ddeallus** neu unrhyw systemau cysylltiedig.
 - I newid y **mesurydd deallus** o fesurydd credyd i **fesurydd rhagdal**u mewn unrhyw amgylchiadau pan fydd gennym **ni**'r hawl i osod **mesurydd rhagdal**u o dan delerau'r **contract** neu **reoliadau'r diwydiant**, ac ar yr amod ei bod hi'n ddiogel ac yn rhesymol ymarferol i **chi** ddefnyddio **mesurydd rhagdal**u.
 - I newid y **mesurydd deallus** o **fesurydd rhagdal**u i fesurydd credyd os oes gennym **ni**'r hawl i wneud hynny o dan delerau'r **contract** neu **reoliadau'r diwydiant**, neu os ydym **ni** wedi cytuno â **chi** y gallwn **ni** wneud hynny.
 - I ddatgysylltu neu derfynu'r cyflenwad **ygni** i'r **eiddo** mewn unrhyw amgylchiadau pan allwn **ni** wneud hynny o dan delerau'r **contract** neu **reoliadau'r diwydiant**.
 - I fonitro eich defnydd **chi** o **ygni** (gan gynnwys, er enghraifft, i'n helpu **ni** i ganfod neu atal unrhyw dwyll neu ddwyn).
 - I wneud gwaith ymchwil a dadansoddi, creu ystadegau a phrofi systemau cyfrifiadurol.
 - I roi gwybodaeth i **chi** am gynhyrchion neu wasanaethau a allai fod o ddiddordeb i **chi**, ond dim ond pan fyddwch **chi** wedi cytuno i **ni** ddefnyddio'r **mesurydd deallus**, yr **uned arddangos ddeallus** a'r wybodaeth a gymerwn **ni** o'r **mesurydd deallus** i wneud hyn.
 - I roi gwybod i **chi** sut gallwch **chi** wneud yr **eiddo'n** fwy effeithlon o ran **ygni**.
 - I ganiatáu i **ni** gyflawni **ein** cyfrifoldebau **ni** neu arfer **ein** hawliau **ni** o dan y **contract** ac unrhyw **reoliadau'r diwydiant**.
- 36.4.3 Byddwn **ni'n** defnyddio'r wybodaeth a gasglwn **ni** o'r **mesurydd deallus** yn unol â'n hysbysiad preifatrwydd **ni** a thelerau'r adran 36 hon.
- 36.4.4 Rydych **chi'n** cytuno bod **ein** hawliau **ni** o dan y **contract** yn berthnasol yn ogystal â'n hawliau eraill **ni** o dan unrhyw **reoliadau'r diwydiant** mewn cysylltiad ag unrhyw **fesurydd deallus** sydd wedi'i osod yn yr **eiddo**.

37. Telerau Cysylltu Cenedlaethol

- 37.1 Rydym **ni'n** gweithredu ar ran y **gweithredwr rhwydwaith trydan** i wneud cytundeb gyda **chi**. Y cytundeb yw eich bod chi a'r **gweithredwr rhwydwaith trydan** yn derbyn y Telerau Cysylltu Cenedlaethol ac yn cytuno i lynu wrth eu hamodau. Bydd hyn yn digwydd o'r adeg pan fyddwch chi'n llunio'r **contract** ac mae'n effeithio ar eich hawliau cyfreithiol **chi**. Mae'r Telerau Cysylltu Cenedlaethol yn gytundeb cyfreithiol. Mae'n amlinellu hawliau a dyletswyddau yn ymwneud â'r cysylltiad y mae'r **gweithredwr rhwydwaith trydan** yn darparu trydan iddo neu'n derbyn trydan oddi wrtho.
- 37.2 Os hoffech **chi** gael copi o'r Telerau Cysylltu Cenedlaethol neu os bydd gennych **chi** unrhyw gwestiynau amdanynt, ysgrifennwch at: Energy Networks Association, 1st Floor, 4 More London Riverside, London SE1 2AU neu ewch i connectionterms.org.uk.

38. Diogelwch ac argyfyngau

- 38.1 Os oes gennych **chi** neu unrhyw un sy'n byw yn yr **eiddo** gyflwr meddygol neu anabled, dylech **chi** roi gwybod i **ni**. Byddwn **ni'n** dweud wrth eich **gweithredwr rhwydwaith trydan chi**, fel y gallant geisio sicrhau eich bod **chi'n** gallu parhau i ddefnyddio unrhyw offer hanfodol os bydd toriad i'r cyflenwad neu argyfwng.

- 38.2 Mewn argyfwng nwy, efallai y byddwn **ni** neu eich **cludwr nwy chi'n** gofyn i **chi** droi dyfeisiau nwy i lawr neu roi'r gorau i ddefnyddio nwy yn gyfan gwbl. Bydd angen i chi ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir i **chi** gennym **ni** neu gan eich **cludwr nwy chi**.
- 38.3 Mae'n rhaid i **chi** beidio â defnyddio nwy mewn ffordd sy'n debygol o beryglu iechyd neu ddiogelwch unrhyw un, peryglu **eiddo** neu effeithio ar y cyflenwad nwy i bobl eraill.
- 38.4 Os byddwch **chi'n** amau gollyngiad nwy, neu ddifrod i unrhyw **offer mesur** a allai arwain at ollwng nwy, mae'n rhaid i **chi** roi gwybod i'r **cludwr nwy** ar unwaith. Y rhif ffôn yw 0800 111 999. Byddwn **ni'n** rhoi gwybod i **chi** os bydd y rhif hwn yn newid.
- 38.5 Os byddwch **chi'n** amau difrod i unrhyw **offer mesur** a allai beryglu iechyd neu ddiogelwch unrhyw un, mae'n rhaid i **chi** roi gwybod i'ch **gweithredwr rhwydwaith trydan chi** ar unwaith. Y rhif ffôn yw 105. Byddwn **ni'n** rhoi gwybod i **chi** os bydd y rhif hwn yn newid.

39. Y trydan a gyflenwir i chi

Fel arfer, bydd y trydan a gyflenwir i'r **eiddo** trwy'r rhwydwaith dosbarthu trydan ar un o'r folteddau canlynol. Cymerwyd y wybodaeth hon o'r Telerau Cysylltu Cenedlaethol (y cyfeirir atynt yn adran 37).

- Foltedd eiledol enwol 230 folt: cyflenwad gwedd sengl fel arfer, gydag amrywiadau foltedd a ganiateir o blws 10% i finws 6%.
- Foltedd eiledol enwol 400 folt: cyflenwad tair gwedd fel arfer, gydag amrywiadau foltedd a ganiateir o blws 10% i finws 6%.
- Ar y naill neu'r llall o'r folteddau uchod: amledd y cyflenwad fydd 50 herts, gydag amrywiadau enwol a ganiateir o blws neu finws 1%.



Rydym ni'n falch o fod wedi cyflawni Marc Crisial yr Ymgyrch Saesneg Clir am eglurder ein telerau ac amodau.

Rydym ni'n deall pwysigrwydd cadw eich manylion personol yn ddiogel.
I gael gwybod mwy, ymwelwch â getsafeonline.org

ScottishPower Energy Retail Limited
Registered Office: 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD
Registered in Scotland No. 190287. VAT No. GB 659 3720 08
scottishpower.co.uk